TGAU

cbac
wjec

# Addasiadau i'r TGAU yn haf 2021

# Llyfryn Gwybodaeth am Bynciau

Asesu yn y Gaeaf a'r Haf 2021 yn unig.
Fersiwn 3: 22.09.20

**Crynodeb o'r newidiadau i'r ddogfen hon**

| Fersiwn | Cymhwyster | Disgrifiad | Rhif y dudalen |
|---|---|---|---|
| **2** | Dylunio a Thechnoleg | Uned 1 – eglurhad o agweddau ar gynnwys y pwnc i'w symleiddio i'w hasesu. | 10 |
| **3** | Saesneg Iaith | Uned 2 – nodwyd y tasgau ysgrifennu penodol yn adran B fel yr addawyd yn y fersiwn cynharach. | 15 |
| | Daearyddiaeth | Uned 1 – Thema 1 ac Uned 2 – Thema 5, cywiro penawdau i gyfateb i'r fanyleb. Does dim newidiadau i'r addasiadau eu hunain. | 19 - 21 |
| | Astudiaethau Crefyddol | Eglurhad o'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn yr addasiad a'r hyn sydd ddim. Nid yw'r addasiad wedi newid. | 34 |
| | Cymraeg Iaith | Uned 2 – nodwyd y tasgau ysgrifennu penodol yn adran B fel yr addawyd yn y fersiwn cynharach. | 39 |

**Addasiadau i Asesiadau TGAU yn haf 2021**

Mae Llywodraeth Cymru a Cymwysterau Cymru, mewn ymateb i gau'r ysgolion a cholegau dros dro ym mis Mawrth 2020, wedi cyhoeddi y bydd cymwysterau TGAU yn cael eu haddasu i'w hasesu yn 2021. Bwriad hyn yw gwneud iawn am yr amser addysgu a dysgu a gollwyd a chynorthwyo'r canolfannau i gydymffurfio â chanllawiau ymbellhau cymdeithasol.

Yn ei ddogfen reoleiddiol, Gofynion ar gyfer Addasu Asesiadau ar gyfer Cymwysterau Cyffredinol yn 2021, mae Cymwysterau Cymru wedi nodi egwyddorion clir (a ddyfynnir isod), i'w dilyn gennym wrth addasu'r TGAU yn 2021. Bydd Cymwysterau Cymru yn monitro ein cydymffurfiaeth â'r gofynion hyn. Mae'r ddogfen hon yn nodi'r addasiadau i'r pynciau TGAU unigol a gymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru i'w defnyddio gan ganolfannau yng Nghymru ac awdurdodaethau eraill, ac felly dylid ei darllen ar y cyd â dogfen Cymwysterau Cymru.

Cafodd yr addasiadau i bob pwnc eu llunio'n ofalus gan ddilyn egwyddorion Cymwysterau Cymru:

1. Rhaid i CBAC geisio sicrhau nad yw dysgwyr yn cael mantais nac yn cael anfantais o gymharu â'u cyfoedion mewn awdurdodaethau eraill.
2. Rhaid i CBAC geisio sicrhau bod pob cymhwyster yn arwydd dibynadwy o'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth a bennir yn y cymhwyster yn dilyn unrhyw addasiadau i asesiadau.
3. Rhaid i CBAC geisio sicrhau nad yw cynnwys cymwysterau, yn gyffredinol, yn cael ei leihau; fodd bynnag, gellir ailstrwythuro cynnwys fel y gellir ei symleiddio'n rhesymol, megis mewn perthynas ag unedau dewisol.
4. Rhaid i CBAC geisio sicrhau bod hydrinedd asesiad yn cael ei gynyddu i'r eithaf, lle bydd hyn yn caniatáu cynnydd yn yr amser addysgu er mwyn lleihau'r effaith ar ganlyniadau.
5. - Rhaid i CBAC geisio cynnal safonau, cyn belled ag y bo modd, o fewn yr un cymhwyster yn unol â blynyddoedd blaenorol.
6. Rhaid i CBAC geisio cynnal safonau, cyn belled ag y bo modd, ar draws cymwysterau tebyg sydd ar gael gan CBAC a chan gyrff dyfarnu eraill.
7. Rhaid i CBAC geisio sicrhau bod hyblygrwydd wrth ddarparu asesiadau yn cael ei gynyddu i'r eithaf er mwyn lleihau effaith aflonyddwch, salwch neu gwarantin, gan gynnwys cyfyngiadau symud ar lefel leol.

Cyn penderfynu'n derfynol ar yr addasiadau hyn, ymgynghorwyd â chanolfannau yng Nghymru drwy gyfrwng grwpiau ffocws ac ymgynghoriad ar-lein byr. Gofynnwyd i'r canolfannau i ba raddau roeddent yn cytuno bod ein haddasiadau arfaethedig yn:

- priodol i wneud iawn am yr amser addysgu a dysgu a gollwyd
- helpu i leddfu materion yn ymwneud ag ymbellhau cymdeithasol ar gyfer gwaith grŵp a gwaith ymarferol
- tebygol o ganiatáu i ddysgwyr symud ymlaen i TAG UG yn y pwnc
- cynnal uniondeb y cymhwyster.

Derbyniwyd mwy na 5000 o ymatebion i'r arolwg, y mwyafrif ohonyn nhw'n dod gan athrawon y pwnc a phenaethiaid adrannau. Dadansoddwyd yr ymatebion hyn a lle y bu angen gwneud hynny diweddarwyd ein haddasiadau arfaethedig i adlewyrchu'r adborth a dderbyniwyd gan ganolfannau. Ni fu'n bosibl mynd i'r afael â phob un o'r pryderon a fynegwyd gan athrawon o ran yr amharu ar yr addysgu a dysgu gan fod rhaid i CBAC, yn fwy na dim, sicrhau uniondeb pob cymhwyster er mwyn gallu dyfarnu cymwysterau yn 2021 sy'n ddilys ac yn gadarn. Dylai'r addasiadau hyn, felly, gael eu hystyried ynghyd â mesurau lliniaru eraill sydd ar gael i ganolfannau.

Ystyriwyd pob cymhwyster yn unigol er mwyn gallu llunio addasiad sy'n briodol i'r pwnc. Yn rhan o'r broses honno rydym wedi ystyried yn ofalus amrywiaeth eang o nodweddion dylunio'r TGAU i'w darparu yng Nghymru, gan gynnwys:

- cymwysterau llinol
- cymwysterau unedol gyda chyfleoedd asesu haf yn unig
- cymwysterau unedol gyda chyfleoedd asesu Ionawr a haf
- cymwysterau unedol gyda chyfleoedd asesu cwrs byr, gradd unigol a dwyradd
- cymwysterau sy'n cynnwys asesu di-arholiad
- cymwysterau a asesir drwy arholiad yn unig.

Addaswyd y pynciau yn y categorïau canlynol mewn ffyrdd tebyg.

1. **Pynciau craidd** (Saesneg Iaith, Cymraeg Iaith, Mathemateg, Mathemateg-Rhifedd)
   Gan fod pynciau craidd yn orfodol, bydd yr addasiadau a gynigir yn y pynciau hyn yr un mor fuddiol i bob dysgwr. Mae'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a enillir drwy astudio'r pynciau hyn yn hanfodol i allu symud ymlaen yn llwyddiannus i bob cwrs lefel 3 ac i gyflogaeth. Oherwydd hyn, mae'n hanfodol bod y cymwysterau hyn yn cynnal y manwl gywirdeb hwnnw sy'n gysylltiedig â'r TGAU. Gwnaed y newidiadau lleiaf yn yr addasiadau felly i'r cynnwys a'r asesiad. Fodd bynnag, bydd symleiddio cynnwys yr asesiad o gymorth i athrawon a dysgwyr ac yn cadw hygrededd y cymwysterau.

2. **Pynciau craidd** (Y Gwyddorau)
   Gan fod pynciau craidd yn orfodol, bydd yr addasiadau a gynigir ym mhynciau TGAU Y Gwyddorau yr un mor fuddiol i bob dysgwr. Ar 27 Mawrth 2020, nododd Cymwysterau Cymru na fydd rhaid i ddysgwyr Blwyddyn 11 a gofrestrwyd am unedau yn 2020 sefyll yr unedau hyn yng nghyfres haf 2021. Er mwyn dyfarnu'r cymhwyster i ddysgwyr, dim ond sefyll yr unedau y byddent wedi bwriadu eu sefyll yn 2021 a fydd yn ofynnol. Mae patrwm cofrestru cyffredin i'w gael yng nghyfres cymwysterau unedol y gwyddorau gyda bron pob ymgeisydd yn sefyll yr un unedau ym mlwyddyn 10. Nid yw'n ymarferol gwneud mwy i leihau'r asesiad ymhellach, heblaw am dynnu'r uned ymarferol am resymau diogelwch, heb niweidio uniondeb y cymwysterau TGAU.

3. **Cynnig dewis o opsiynau ar lefel uned i rai pynciau TGAU** (Llenyddiaeth Saesneg, Llenyddiaeth Gymraeg, Cymraeg Ail Iaith, Hanes)
   Cymwysterau unedol yw'r rhain gyda llawer o ddysgwyr yn sefyll un neu fwy o unedau yn haf blwyddyn 10 neu ym mis Ionawr blwyddyn 11. Ond, yn wahanol i'r gwyddorau, dydy'r patrwm cofrestru am unedau ddim yn un cyson ar draws y canolfannau ac ni chafodd pob dysgwr oedd yn bwriadu cyfnewid yn haf 2021 ei gofrestru am unedau yn haf 2020..Felly, i'r dysgwyr hynny sy'n cyfnewid eu cymhwyster yn 2021 gallant ddewis un (Llenyddiaeth Saesneg, Llenyddiaeth Gymraeg a Cymraeg Ail Iaith) neu ddwy (Hanes) uned, o ddewis o unedau. Bydd cynnwys ac asesiad yr uned yn aros yr un peth ac nid yw'r addasiad hwn yn berthnasol i'r sawl sy'n cychwyn ar gyrsiau yn 2020, gan fwriadu cyfnewid yn 2022. Mae'r addasiad hwn yn golygu bod angen newid y cyfeiriad a gymerwyd gan Cymwysterau Cymru ar 27 Mawrth, er mwyn sicrhau cysondeb i bob dysgwr sy'n cyfnewid yn 2021. Cefnogodd Cymwysterau Cymru y dull gweithredu hwn yn ei lythyr dyddiedig 15 Gorffennaf 2020.

4. **Symleiddio asesiad yr Asesu Di-arholiad yn 2021** (Celf a Dylunio, Cyfrifiadureg, Dylunio a Thechnoleg, Drama, Bwyd a Maeth, Daearyddiaeth, Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, TGCh, Astudio'r Cyfryngau, Cerddoriaeth, Addysg Gorfforol)

   Bu'n bosibl addasu asesiadau'r Asesu Di-arholiad yn 2021 yn y cymwysterau hyn. Gellid gwneud hynny oherwydd bod y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a brofir yn yr unedau hyn yn cael eu profi hefyd mewn mannau eraill yn y cymhwyster neu oherwydd ei bod yn bosibl asesu prototeip/model yn lle'r cynnyrch gorffenedig. Ym mhob achos gwnaed yr addasiad fel y gall canolfannau hwyluso cyrsiau ymarferol mewn amgylchedd sy'n ddiogel ac yn dilyn y canllawiau ymbellhau cymdeithasol. Yn rhai o'r pynciau hyn sydd â llai o newidiadau i'r Asesu Di-arholiad addaswyd asesiadau drwy arholiad hefyd.

5. **Symleiddio cynnwys i'w asesu drwy arholiad yn 2021** (Busnes, Dylunio a Thechnoleg, Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg, Daearyddiaeth, Astudio'r Cyfryngau, Astudiaethau Crefyddol)

   Ar gyfer y cymwysterau hyn rydym wedi rhagnodi na fydd rhywfaint o'r cynnwys yn cael ei asesu yn 2021. Mewn rhai achosion, ond nid pob un, mae hyn yn golygu y tynnir cwestiynau o'r asesiad hefyd ac y bydd papur 2021 yn edrych yn wahanol i'r arfer. Os digwydd hyn bydd asesiad enghreifftiol wedi'i ddiweddaru ar gael cyn yr arholiadau.

Yn ogystal â'r pynciau a restrir yng nghategori 3 uchod, mewn tri o'r cymwysterau unedol yng nghategorïau 4 a 5 mae angen newid y cyfeiriad a gymerodd Cymwysterau Cymru ar 27 Mawrth, lle nad yw'n ofynnol i ymgeiswyr sefyll asesiadau y cawsant eu cofrestru ar eu cyfer yn 2020, er mwyn sicrhau cysondeb o ran y dull gweithredu i bob dysgwr sy'n cwblhau ei gymwysterau yn 2021.Y rhain yw:

- TGAU TGCh (Gradd Unigol a Chwrs Byr)
- TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Gradd Unigol a Dwyradd)
- TGAU Astudiaethau Crefyddol (Cwrs Llawn a Chwrs Byr)

Oherwydd bod y patrymau cofrestru yn wahanol ar draws Cymru, nid yw'n bosibl i CBAC ddyfarnu cymhwyster dibynadwy a dilys drwy gyfrifo canlyniad ar gyfer dysgwyr a gofrestrwyd am un neu fwy o unedau yn 2020 yn ogystal â gwneud addasiadau i'r unedau sy'n weddill i'w sefyll gan y dysgwyr yn haf 2021. Felly, er mwyn sicrhau bod pob dysgwr yn cael yr un fantais o unrhyw liniaru a wneir, rydym wedi symleiddio'r cynnwys i'w asesu yn 2021 ac/neu wedi lleihau'r asesiad di-arholiad yn lle, i wneud iawn am yr amser addysgu a dysgu a gollwyd. Gwnaed hyn yn hytrach na mynd ymlaen â'r cynnig gwreiddiol. Ni fydd llawer o ddysgwyr wedi symud ymlaen o ran eu dysgu ar gyfer yr unedau y maent i fod i'w sefyll yn 2021. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion byddai'r rhan fwyaf o'r addysgu ar gyfer yr unedau y cofrestrwyd amdanynt yn haf 2020 wedi'i gwblhau ganddynt. Cefnogodd Cymwysterau Cymru y dull gweithredu hwn yn ei lythyr dyddiedig 15 Gorffennaf 2020.

**Mynegai'r pynciau**

Celf a Dylunio
Busnes
Cyfrifiadureg
Dylunio a Thechnoleg
Drama
Saesneg Iaith
Llenyddiaeth Saesneg
Bwyd a Maeth
Ffrangeg/Almaeneg/Sbaeneg
Daearyddiaeth
Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant (Gradd Unigol)
Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant (Dwyradd)
Hanes
TGCh (gan gynnwys Cwrs Byr)
Mathemateg a Mathemateg Rhifedd
Astudio’r Cyfryngau
Cerddoriaeth
Addysg Gorfforol (gan gynnwys Cwrs Byr)
Astudiaethau Crefyddol (gan gynnwys Cwrs Byr)
Y Gwyddorau
Cymraeg Iaith
Llenyddiaeth Gymraeg
Cymraeg Ail Iaith

## Celf a Dylunio

### Uned 1: Portffolio (Asesiad Di-arholiad) 60%

Does dim newidiadau i'r uned hon.

### Uned 2: Aseiniad wedi'i osod yn allanol (Asesiad Di-arholiad) 40%

**Ni** asesir Uned 2 yn 2021.

### Sail resymegol

Yn gyffredinol, caiff Uned 1 (Portffolio) ei chwblhau drwy gydol Blwyddyn 10 (3 thymor) ac yn ystod tymor cyntaf Blwyddyn 11 (cyfanswm o 4 tymor). O ganlyniad, mae'n debygol iawn bod dysgwyr eisoes wedi cwblhau rhywfaint o'r gwaith ar y Portffolio. Gan ystyried y bydd dysgwyr yn dal i weithio ar hwn am ran helaeth o 2021 hefyd, penderfynwyd peidio â rhyddhau'r aseiniad Uned 2 eleni, fel bod dysgwyr yn gallu blaenoriaethu'r gwaith ar eu portffolio. Bydd hyn yn gwneud iawn am y cyfleoedd addysgu a dysgu a gollwyd. Mae'r addasiad hwn wedi'i gynllunio hefyd i ganiatáu i ganolfannau addasu eu rhaglenni astudio yn unol â chanllawiau ymbellhau cymdeithasol, gan fod rheolaethau ar gyfer Uned 1 yn gyfyngedig a gellir cyflwyno'r Portffolio dros gyfnod hwy. Mae'r ddwy uned yn ymdrin â'r un wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau ac amcanion asesu; felly bydd y cymhwyster yn dal i dargedu'r ystod gallu lawn a bydd yr addasiad yn golygu ei bod yn dal i fod yn bosibl i ddysgwyr symud ymlaen i Lefel 3.

**Busnes**

**Cynnwys:**

Symleiddio cynnwys i'w asesu fel na fydd y meysydd cynnwys canlynol yn cael eu hasesu yn 2021:

| | |
|---|---|
| Gweithgaredd Busnes | Masnachfreintio<br>Manteision ac anfanteision gweithredu fel masnachfreintiwr a masnachfreintai |
| Dylanwadau ar Fusnes | Yr Undeb Ewropeaidd a'r farchnad sengl Ewropeaidd<br>Effaith bod yn aelod a pheidio â bod yn aelod o’r Undeb Ewropeaidd ar fusnesau a’u rhanddeiliaid |
| Gweithrediadau busnes | Cadwyn gyflenwi<br>Gwahanol gamau symud nwyddau a gwasanaethau o’u ffynonellau i’r cwsmer terfynol:<br>Y berthynas rhwng meysydd gweithredol busnes a'i gadwyn gyflenwi<br>Effaith cyflenwad a phenderfyniadau logisteg ar fusnesau a’u rhanddeiliaid |
| Cyllid | Beth yw ystyr rhagolwg llif arian, creu, cyfrifo a dehongli rhagolygon llif arian<br>Effaith rhagolygon llif arian ar fusnes a’i randdeiliaid<br>Argymell a chyfiawnhau'r hyn y gellir ei wneud i wella problemau llif arian |
| Marchnata | Y gwahanol strategaethau prisio sy'n cael eu defnyddio gan fusnesau<br>Y defnydd o wahanol strategaethau prisio ar gyfer gwahanol fusnesau mewn gwahanol gyd-destunau a senarios |
| Adnoddau Dynol | Pwysigrwydd cael proses recriwtio effeithiol er mwyn cyflogi’r bobl briodol sydd â’r sgiliau gwaith priodol<br>Y broses recriwtio a sut mae hynny yn wahanol mewn gwahanol fusnesau mewn gwahanol gyd-destunau<br>Y dulliau recriwtio gwahanol sy'n cael eu defnyddio gan wahanol fusnesau mewn gwahanol gyd-destunau<br>Manteision ac anfanteision dulliau recriwtio gwahanol<br>Y dulliau a’r prosesau recriwtio mwyaf priodol ar gyfer gwahanol fusnesau mewn gwahanol gyd-destunau a senarios<br><br>Buddion gweithlu â chymhelliant<br>Y dulliau mae busnesau yn eu defnyddio i gymell eu gweithluoedd<br>Y dull mwyaf priodol y gall busnes ei ddefnyddio i gymell gweithwyr mewn gwahanol gyd-destunau a senarios |

**Asesiad:**

**Uned 1: Byd Busnes (arholiad ysgrifenedig) 62.5%**

Does dim newidiadau i asesiad yr uned hon.

**Uned 2: Canfyddiadau Busnes (arholiad ysgrifenedig) 37.5%**

Mae dysgwyr yn ateb cwestiynau ar un astudiaeth achos a chyfres gyfatebol o gwestiynau yn hytrach na'r ddwy arferol.Lleihau hyd yr arholiad o 90 munud i 45 munud.

**Sail resymegol**

Bydd symleiddio cynnwys yn cynrychioli’r ffaith bod llai o amser dysgu wedi bod ac mae trawstoriad wedi'i ddewis i wneud iawn am y drefn wahanol o addysgu mewn rhaglenni astudio ar gyfer gwahanol ganolfannau.Cafodd peidio ag asesu darnau penodol o gynnwys, megis swyddogaeth fusnes benodol, ei ystyried a'i wrthod ar y sail y byddai gwneud hynny'n anfanteisiol i rai canolfannau ac yn cyfaddawdu uniondeb y cymhwyster.

Er y bydd un astudiaeth achos a chyfres o gwestiynau wedi'u tynnu o Uned 2 bydd gofyn o hyd i ddysgwyr ddefnyddio'r sgiliau a nodir yn y fanyleb a bydd cydbwysedd yr amcanion asesu wedi'i gynnal. Mae hynny felly'n sicrhau dibynadwyedd a dilysrwydd y cymhwyster.Ystyriwyd a ddylid cadw'r ddau gwestiwn data a rhoi dewis o'r naill neu'r llall i'r dysgwyr. Byddai gwneud hyn, fodd bynnag, yn achosi mwy o broblemau wrth symleiddio cynnwys a gallai achosi dryswch i ddysgwyr ar ddiwrnod yr arholiad. Ystyriwyd symleiddio cynnwys i'w asesu yn Uned 1 hefyd. Ond, gwrthodwyd hyn oherwydd y math o gwestiynau a'r ysgogiad a ddefnyddir yn y papur hwn a'r adnabyddiaeth dda sydd gan ganolfannau ohoni.

## Cyfrifiadureg

### Uned 1: Deall Cyfrifiadureg (Arholiad ysgrifenedig) 50%

Does dim newidiadau i'r uned hon.

### Uned 2: Meddwl Cyfrifiannol a Rhaglennu (Arholiad ar-sgrin) 30%

Does dim newidiadau i'r uned hon.

### Uned 3: Datblygu Meddalwedd (Asesiad Di-arholiad) 20%

**Ni** asesir Uned 3 yn haf 2021.

### Sail resymegol

Yn ogystal â'r 20 awr mae dysgwyr yn ei dreulio'n cwblhau'r Asesiad Di-arholiad, mae canolfannau'n treulio llawer o amser yn addysgu sgiliau a chynnwys sy'n ofynnol ar gyfer Uned 3. Mae Asesiad Di-arholiad Uned 3 yn asesu AA2 ac AA3. Asesir y ddau amcan asesu hyn hefyd yn Uned 2 lle mae dysgwyr yn cyflawni rhaglennu ymarferol. Nid yw'r asesiadau sy'n weddill yn cael eu haddasu ac felly ni thanseilir dilysrwydd a dibynadwyedd yr asesiadau. Ystyriodd y grŵp ffocws addasu'r unedau arholiad yn hytrach na'r Asesiad Di-arholiad, ond mae cynnwys yn Unedau 1 a 2 sy'n hanfodol ar gyfer dilyniant.

## Dylunio a Thechnoleg

### Dylunio Peirianyddol, Ffasiwn a Thecstilau a Dylunio Cynnyrch

**Uned 1: Dylunio a Thechnoleg yn yr 21ain Ganrif (arholiad ysgrifenedig) 50%**

Does dim newid i asesiad yr uned hon. Ond, ni fydd y pwyntiau canlynol o'r ymhelaethiad sydd ar hyn o bryd yn y manylebau Dylunio a Thechnoleg yn cael eu hasesu yn 2021. Does dim cyfyngiad ar y dysgwr o ran defnyddio unrhyw un o'r pwyntiau ymhelaethu a dynnir yn rhan o'u hasesiadau ar gyfer yr Asesiad Di-arholiad yn Uned 2.

**Dylunio Peirianyddol**

| Cynnwys | Pwyntiau bwled yr ymhelaethiad nad ydynt yn cael eu hasesu |
|---|---|
| a | ***Metelau Fferrus***<br>• Cryfderau a gwendidau.<br>• Haearn bwrw, dur meddal, dur carbon canolig a dur carbon uchel.<br>• Dur gwrthstaen, dur cyflymder uchel (high-speed) a dur ucheldynnol (high tensile).<br>• Priodweddau ffisegol, gan gynnwys: ymdoddbwynt, dargludedd trydanol a thermol. |
| b | Dim |
| c | Dim |
| ch | • Defnyddiau Cyfansawdd Twnelu Cwantwm (QTC) – wrth ei ddefnyddio mewn cylchedau, mae'r gwrthiant yn newid dan gywasgiad. |
| d | • Systemau pwli, er enghraifft rheiliau llenni, peiriant gwnïo.<br>• Liferi a chysylltiadau, er enghraifft siswrn. |
| dd | • Swyddogaeth adwyon rhesymeg AC, NEU, EOR, NID, a NIAC.<br>• Cyfuno adwyon rhesymeg i ffurfio systemau rheoli.<br>• Liferi |
| e | Dim |
| f | • Mae byrddau cyfansawdd yn aml ar gael ar ffurf llenni ac mewn meintiau safonol a sawl trwch gwahanol. |
| ff | Dim |
| g | **O dan: Anffurfio/Ailffurfio**<br>• Plygu plastigion.<br>• Torri â laser.<br>• Argraffu 3D.<br><br>**O dan: Cydosod a chydrannau**<br>• Cydrannau at bwrpas penodol, gan gynnwys nytiau, bolltau, wasieri, sgriwiau, rhybedion<br><br>***Y prif gamau yn y prosesau uno canlynol:***<br><br>• Dros dro: nytiau a bolltau peiriant, bolltau hunandapio, torri edafedd ar gyfer bollt gosod priodol. |

**Ffasiwn a Thecstilau**

| Cynnwys | Pwyntiau bwled yr ymhelaethiad nad ydynt yn cael eu hasesu |
|---|---|
| a | • Atgynyrchiedig: Viscos, reion, asetad, lyocell (Tencel®) |
| b | *O dan tecstilau technegol tynnu'r cyfeiriad at:*<br>• Geotecstilau ar gyfer tirlunio a thecstilau amaethyddol.<br>• Bondio pilenni sy'n gallu gwrthsefyll dŵr ac anadlu i ffabrigau allanol i'w gwisgo ym mhob tywydd: Gore-Tex, Permatex, Sympatex®<br>• Nomex |
| c | • Y gwahaniaethau rhwng defnydd thermoffurfiol (thermoplastig) a defnydd thermosodol |
| ch | • Microffibrau yn y diwydiant gweithgynhyrchu dillad<br>• Defnyddiau gweddnewidiol: defnyddiau sy'n gallu anadlu; rheoli gwres a lleithder rhagweithiol |
| d | • Mae blendio a chymysgu ffibrau yn gwella priodweddau a ffyrdd o ddefnyddio edafedd a defnyddiau ac yn eu gwneud yn fwy defnyddiol.<br>• Blendiau, er enghraifft: polyester a chotwm, sidan a fiscos, cywarch a chotwm neu sidan.<br>• Cymysgedd, er enghraifft: cotwm a gwlân, lycra gyda gwlân, cotwm neu neilon<br>• Bondio pilenni sy'n gallu gwrthsefyll dŵr ac anadlu i ffabrigau allanol i'w gwisgo ym mhob tywydd (Gore-tex, Permatex) |
| dd | • Gwella ansawdd esthetig:<br>Lliw, addurn arwyneb, sglein, cyfnerthu, cynyddu gloywedd (calendro, sgleinio), brwsio, gwrthsefyll staen (Scotchguard, Teflon). |
| e | Dim |
| f | • Sut y mae systemau gweithgynhyrchu wedi'u trefnu: cynhyrchu llinell, system bwndel cynyddol a chynhyrchu cell. |
| ff | • Marcio rhic poeth mewn diwydiant |
| g | • Peintio: blaen ffelt, dimensiynol, paent ffabrig, paentiau sidan |

**Dylunio Cynnyrch**

| Cynnwys | Pwyntiau bwled yr ymhelaethiad nad ydynt yn cael eu hasesu |
|---|---|
| a | • Priodweddau esthetig a swyddogaethol papurau, cardiau a byrddau cyffredin gan gynnwys papur cetris, papur llungopïo, papur gwrthredeg (bleedproof paper), bwrdd mowntio, bwrdd ewyn, bwrdd gwyn solet, bwrdd rhychiog a bwrdd dwplecs. |
| b | • Priodweddau esthetig a swyddogaethol pren caled a phren meddal gan gynnwys ffawydden, derw, balsa, jelutong, pinwydden yr Alban, cedrwydden goch a phinwydden parana.<br>• Diogelir pren naturioldrwyddefnyddio gwahanol orffeniadau a defnyddir y gorffeniadau hyn weithiau i wella apêl esthetig. |
| c | Dim |
| ch | Dim |
| d | • Defnyddiau Cyfansawdd Twnelu Cwantwm (QTC) – wrth ddefnyddio mewn cylchedau, mae'r gwrthiant yn newid dan gywasgiad.<br>• Polymorff<br>• Polymerau thermocromig neu lifynnau |
| dd | Pren Naturiol a Chyfansawdd<br>• Y gwahaniaeth rhwng pren caled a phren meddal.<br><br>Papurau a byrddau<br>• Ffynonellau sylfaenol papur a byrddau.<br>• Byrddau wedi'u hailgylchu.<br>• Defnyddio micronau i fesur trwch papur a byrddau.<br>• Priodweddau ffisegol a gweithio papur a bwrdd, gan gynnwys: gwead, pwysau, trwch, cryfder, gorffeniad arwyneb, tryloywder, y gallu i blygu ac amsugnedd. |
| e | Dim |
| f | • Mae pren naturiol ar gael mewn gwahanol ffurfiau trychiadol, gwahanol feintiau safonol a gall gael gwahanol orffeniad (wedi ei lifio neu wedi ei blaenio).<br>• Mae polymerau plastig ar gael mewn amrywiaeth eang o ffurfiau, gan gynnwys: powdrau, gronigion, pelenni, hylifau, caenau, llenni, a siapiau allwthiol.<br>• Meintiau safonol papurau a byrddau, h.y. rholiau, A5, A4, A3 ac wedi'u mesur mewn gramau y metr sgwâr. |
| ff | • Prosesau yn ystod argraffu a gorffennu a ddefnyddir gan argraffyddion masnachol i gynhyrchu cynhyrchion mewn sypiau neu fasgynhyrchu/ar raddfa fawr. |
| g | Dim |

**Uned 2: Tasg dylunio a gwneud (Asesiad Di-arholiad) 50%**

Byddwn yn derbyn model/brasfodel yn lle'r cynnyrch gorffenedig. Ffasiwn a Thecstilau – byddwn yn derbyn toile mewn calico neu mewn ffabrig priodol arall, gyda samplau i ddangos yr holl fanylion llunio. Bydd hyn yn caniatáu i ganolfannau dreulio llawer llai o amser ar yr asesiad di-arholiad na'r 35 awr arferol a awgrymir yn y fanyleb. Mae rhwydd hynt gan ddysgwyr i gyflwyno'r cynnyrch gorffenedig yn ôl yr arfer os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Tynnu'r gofyniad i 'Werthuso addasrwydd i bwrpas prototeip'  o'r asesiad yn haf 2021.

**Sail resymegol**

Bydd lleihau'r disgwyliad o ran gwneud cynnyrch/prototeip terfynol yn lleddfu'r pryderon a fynegwyd gan lawer, yn mynd i'r afael â'r mater ymbellhau cymdeithasol ac yn gwneud iawn am golli amser addysgu a dysgu.

Adolygir yr union ddisgwyliadau o ran canlyniad y cynnyrch/brasfodel a bydd CBAC yn llunio canllawiau i'r athrawon ac yn eu rhannu â'r canolfannau yn ystod mis Medi.

Er mwyn gwneud iawn am golled amser addysgu cynigiwyd symleiddio'r cynnwys manwl gan fod rhai o'r un sgiliau ac amcanion asesu yn cael eu trafod yn Uned 2. Ni fyddai hyn felly'n effeithio ar ddilyniant dysgwyr i lefel 3. Mae sicrhau bod dysgwyr yn sefyll yr arholiad a'r Asesiad Di-arholiad yn sicrhau bod y cymhwyster yn parhau i fod yn asesiad dilys o alluoedd y dysgwyr.

## Drama

### Uned 1: Dyfeisio Theatr (Asesiad Di-arholiad) 40%

Lleihau maint grwpiau i gynnwys o leiaf 1 actor. Ar hyn o bryd rhaid cael o leiaf 2 actor mewn grŵp. Byddai angen i un actor berfformio am rhwng 2 a 4 munud.

Tynnu'r gofyniad i ddysgwyr gwblhau'r gwerthusiad dan amodau dan oruchwyliaeth. Tynnu'r cyfyngiad amser o 1 awr 30 munud ar gyfer y dasg hon. Does dim angen i ddysgwyr gyflwyno eu nodiadau pwynt bwled. Mae'r terfyn geiriau yn 900 o eiriau.

### Uned 2: Perfformio Theatr (Asesiad Di-arholiad) 20%

**Ni** asesir Uned 2 yn haf 2021.

### Uned 3: Dehongli Theatr (Arholiad ysgrifenedig) 40%

Does dim newidiadau i'r uned hon.

### Sail resymegol

Oherwydd y canllawiau ymbellhau cymdeithasol presennol teimlwyd mai peidio asesu Uned 2 yn 2021 fyddai orau. Gall cyfyngiadau symud lleol mewn rhai ardaloedd yn y dyfodol, yn ogystal â'r posibilrwydd o arholwyr ymweld neu ddysgwyr yn gorfod hunanynysu, amharu ar asesu'r uned. Mae Uned 1 yn ymdrin ag AA1, AA2 a AA4, ac Uned 2 yn ymdrin ag AA2 yn unig. Felly, bydd modd ymdrin yn llawn o hyd â'r holl amcanion asesu yn y cymhwyster drwy dynnu Uned 2, a sicrhau na thanseilir dilysrwydd a dibynadwyedd y cymhwyster.
Mae hefyd yn debygol iawn y byddai canolfannau wedi dechrau Uned 1 cyn i'r ysgolion gau. Oherwydd natur ymarferol yr uned, mae'n bosibl y bydd yn rhaid ail-strwythuro'r gwaith sydd eisoes wedi'i ddechrau yn gyfan gwbl oherwydd y mesurau ymbellhau cymdeithasol angenrheidiol. Byddai tynnu Uned 2 yn rhoi amser i ganolfannau gynllunio ac ail-drefnu eu gwaith wedi'i ddyfeisio ar gyfer Uned 1. Byddai caniatáu i ddysgwyr berfformio monologau yn golygu ei bod yn bosibl iddynt weithio'n unigol yn yr ystafell ddosbarth a gartref. Byddai canolfannau yn ei chael yn haws rhoi mesurau ymbellhau cymdeithasol ar waith a gallai dysgwyr baratoi gwaith yn unigol heb ddibynnu ar eraill. Mae tynnu'r gofyniad i ddysgwyr gwblhau'r gwerthusiad yn Uned 1 dan amodau dan oruchwyliaeth yn cefnogi ymhellach y cydymffurfio â mesurau ymbellhau cymdeithasol posibl yn y dyfodol.

Atgoffir canolfannau, at ddibenion dadansoddi a gwerthuso perfformiad byw yn yr asesiad (Uned 3, Adran B), y gall perfformiad byw gynnwys recordiadau neu ffrydio perfformiad byw.

## Saesneg Iaith

### Uned 1: Llafaredd 20%

Tynnu Tasg 2: Ymateb a Rhyngweithio (trafodaeth grŵp).
Amodau rheoli Tasg 1: Bydd y Cyflwyniad wedi'i Ymchwilio'n Unigol yn fwy goddefol fel y gall y myfyrwyr hynny nad ydynt yn gallu mynychu'r ysgol neu'r coleg gwblhau eu cyflwyniadau.

### Uned 2: Disgrifio, Adrodd a Dehongli (arholiad ysgrifenedig) 40%

Bydd dysgwyr yn gallu dewis rhwng ysgrifennu disgrifiadol ac ysgrifennu deongliadol ar gyfer Adran B Uned 2 yn haf 2021. Ni asesir ysgrifennu adroddiannol yn haf 2021.

### Uned 3: Trafod, Perswâd a Chyfarwyddiaol (arholiad ysgrifenedig) 40%

Newid y gofyniad i ateb y ddwy dasg ysgrifennu yn Adran B. Bydd y dysgwyr yn cael cynnig dewis i ymateb **naill ai** i'r dasg trafod **neu** i'r dasg perswâd. Bydd hyn yn lleihau hyd yr arholiad o 30 munud.

### Sail resymegol

I leihau'r baich gweinyddol sy'n gysylltiedig â thasgau Asesu Di-arholiad ar gyfer Uned 1: Llafaredd, a chan ystyried gofynion ymbellhau cymdeithasol, ni fydd CBAC yn rhyddhau deunyddiau ysgogi'r drafodaeth grŵp ar gyfer cofrestriadau yn 2021 ym mis Medi eleni. Bydd yn ofynnol i ganolfannau gyflwyno marciau a sampl at ddibenion cymedroli yn seiliedig ar Dasg 1 yn unig: Cyflwyniad wedi'i Ymchwilio'n Unigol. Os nad yw myfyriwr yn gallu bod yn bresennol ei hun i gyflwyno Tasg 1, bydd CBAC yn caniatáu recordio'r dasg o bell gyda'r holl nodiadau i'w hanfon yn electronig at yr athro/tiwtor.

Asesir sgiliau AA3 drwy dair tasg ysgrifennu estynedig ac ymarfer prawfddarllen ar draws y ddwy uned arholiad allanol. Cynigir dewis o dasg ysgrifennu yn Adran B Uned 3 gan leihau nifer y darnau ysgrifennu estynedig o dri i ddau. Bydd CBAC hefyd yn hysbysu canolfannau pa ddau fath o ysgrifennu a fydd i'w gweld yn Adran B Uned 2.
Drwy symleiddio asesiadau bydd y dysgwyr yn gallu cyrraedd eu potensial ar draws yr ystod gallu lawn o hyd, a bydd hynny'n sicrhau bod y cymhwyster yn ddilys o hyd.

## Llenyddiaeth Saesneg

**Uned 1: Rhyddiaith Diwylliant Arall (Arholiad ysgrifenedig) 35%**

Does dim newidiadau i asesiad yr uned hon.

**Uned 2: Drama etifeddiaeth lenyddol a rhyddiaith gyfoes (2a); Drama gyfoes a rhyddiaith etifeddiaeth lenyddol (2b) (Arholiad ysgrifenedig) 40%**

Does dim newidiadau i asesiad yr uned hon.

**Uned 3: Shakespeare ac Ysgrifennu o Gymru yn Saesneg (Asesiad Di-arholiad) 25%**

Does dim newidiadau i asesiad yr uned hon.

**Newidiadau i'r gofynion cofrestru/cyfnewid**

Mae'n ofynnol i bob ymgeisydd sefyll – yn hytrach na chael ei gofrestru yn unig – am **un** o'r **ddwy** uned a arholir (Uned 1 **neu** Uned 2). Y ganolfan unigol sydd i ddewis yr uned a gallai hyn amrywio o fewn canolfan. **Byddai'r trefniant hwn yn berthnasol i rai sy'n cyfnewid yn 2021 yn unig.**

Sylwer, **nid** yw'n bosibl i ddysgwyr ddewis sefyll Uned 1 **ac** Uned 2. Os safodd dysgwr Uned 1 yn flaenorol yn Ionawr 2020, gan dderbyn gradd uned ond heb gyfnewid gall ailsefyll yr uned honno neu ddefnyddio gradd yr uned i'w chyfnewid. Ni allant sefyll Uned 2.

Bydd y rheol asesiad terfynol o 40% yn cael ei hatal ar gyfer cyfnewid yn haf 2021 yn unig. Gall dysgwyr sefyll yr arholiad Uned 1 (os ydynt yn dewis gwneud hynny) naill ai yn Ionawr 2021, haf 2021 neu'r ddau.

**Sail resymegol**

Mae tynnu uned gyfan yn gwneud iawn am yr amser addysgu a dysgu a gollwyd ac mae'r dull hwn yn golygu bod canolfannau'n gallu rhoi'r cymhwyster yn y cyd-destun sydd fwyaf addas i'w dysgwyr a'u patrymau cofrestru nhw. Gall ymgeiswyr a gofrestrwyd am Uned 1 yn haf 2020 heb gyfnewid ddewis sefyll naill ai Uned 1 neu Uned 2 yn 2021.

Mae ymgeiswyr sy'n sefyll dwy o'r tair uned yn dal i fynd i'r afael â phob un o'r pedwar Amcan Asesu ac mae cadw'r uned Asesiad Di-arholiad yn golygu yr asesir yr holl ddysgwyr drwy gyfrwng arholiad ac Asesiad Di-arholiad. Nid yw hynny felly'n tanseilio dilysrwydd a dibynadwyedd y cymhwyster. Ni fydd newidiadau i bapurau cwestiynau, tasgau Asesu Di-arholiad na chynlluniau marcio unrhyw uned er mwyn sicrhau cynefindra i athrawon a dysgwyr. Gellid ailgyflwyno Asesiad Di-arholiad a gofrestrwyd yn haf 2020, na ddefnyddiwyd yn rhan o gyfnewid blaenorol, i'w gymedroli yn haf 2021.

## Bwyd a Maeth

### Uned 1:  Egwyddorion Bwyd a Maeth (Arholiad ysgrifenedig) 40%

Does dim newidiadau i'r uned hon.

### Uned 2:  Bwyd a Maeth ar Waith (Asesiad Di-arholiad) 60 %

Asesiad 1: Ni asesir yr Ymchwiliad Bwyd yn 2021. Mae cyfanswm yr amser asesu yn mynd i lawr o 25 awr i 15 awr.

### Sail resymegol

Asesiad 1 y bydd dysgwyr yn ei gwblhau gyntaf fel arfer. Yr asesiad hwn yw'r lleiaf o'r ddau Asesiad Di-arholiad ac mae'n asesu amcanion asesu a asesir hefyd mewn mannau eraill yn y cymhwyster. Mae Asesiad 2 yn cael ei gadw. Dyma'r unig ran o'r cymhwyster lle mae AA3 –*Cynllunio, paratoi, coginio a chyflwyno seigiau, gan gyfuno technegau priodol,* yn cael ei asesu. Mae Asesiad 2 yn un y mae llawer o ddysgwyr yn ei fwynhau gan eu bod yn gallu dangos eu galluoedd ymarferol. Bydd tynnu Asesiad 1 yn gwneud iawn am yr amser addysgu a dysgu a gollwyd ac yn caniatáu mwy o amser i addysgu'r cynnwys sy’n ofynnol ar gyfer asesiad Uned 1. Bwriedir yr addasiad hwn hefyd i alluogi canolfannau i addasu eu rhaglen astudio yn unol â chanllawiau ymbellhau cymdeithasol. Drwy dynnu Asesiad 1, mae'n bosibl treulio mwy o amser ar y sesiynau ymarferol ar gyfer Asesiad 2. Ni chafodd unrhyw sgiliau a chynnwys sy'n ofynnol ar gyfer dilyniant i lefel 3 eu tynnu. Bydd yr addasiad hwn yn sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal ar draws y cymhwyster ac yn gwella ei ymarferoldeb i ganolfannau.

## Ffrangeg/Almaeneg/Sbaeneg

**Uned 1: Siarad (arholiad llafar) 25%**

Tynnu tasg 2 (trafodaeth am lun ar gerdyn).

Lleihau hyd yr arholiad ddau funud (7-9 munud ar hyn o bryd) ar yr haen sylfaenol a thri munud (10-12 munud ar hyn o bryd) ar yr haen uwch er mwyn cymryd ystyriaeth o dynnu tasg 2.

Caniatáu i ddysgwyr ddewis eu his-is-thema eu hunain ar gyfer Rhan 1 o'r Sgwrs cyn yr asesiad siarad. Rhaid i'r dysgwr a'r athro gytuno ar y dewis o is-is-thema yn ddim hwyrach na phythefnos cyn cynnal yr asesiad. Bydd enghraifft o'r elfen hon o'r asesiad ar gael i'r canolfannau yn ystod tymor yr hydref.

Ni asesir y pump is-is-thema ganlynol yn y dasg Chwarae Rôl a Rhan 2 o'r Sgwrs yn 2021:
- Thema 1: i) Technoleg a'r cyfryngau cymdeithasol; ii) Gwyliau a dathliadau
- Thema 2: iii) Nodweddion lleol a rhanbarthol Ffrainc/Yr Almaen/Sbaen a gwledydd Ffrangeg/Almaeneg/Sbaeneg eu hiaith; iv) materion cymdeithasol
- Thema 3: v) Astudiaeth ôl-16.

**Uned 2: Gwrando (arholiad ysgrifenedig) 25%**

Does dim newidiadau i'r uned hon.

**Uned 3: Darllen (arholiad ysgrifenedig) 25%**

Does dim newidiadau i'r uned hon.

**Uned 4: Ysgrifennu (arholiad ysgrifenedig) 25%**

Tynnu'r gofyniad i gyfieithu o'r Gymraeg/Saesneg i Ffrangeg/Almaeneg/Sbaeneg.

Ni asesir pump o'r is-is-themâu yn yr uned hon yn 2021, sef y rhai canlynol: i) Technoleg a'r cyfryngau cymdeithasol (Thema 1); ii) Gwyliau a dathliadau (Thema 1); iii) Nodweddion lleol a rhanbarthol Ffrainc/Yr Almaen/Sbaen a gwledydd Ffrangeg/Almaeneg/Sbaeneg eu hiaith (Thema 2); iv) Materion cymdeithasol (Thema 2); v) Astudiaeth ôl-16 (Thema 3)

### Sail resymegol

Roedd rhai ymatebwyr yn cydnabod bod trefn addysgu bob is-thema yn amrywio ar draws y canolfannau a bod hynny'n golygu y gallai tynnu is-thema helpu rhai canolfannau, ond nid canolfannau eraill. Gan gadw hyn mewn cof, mae'r cynigion diwygiedig yn cynnwys tynnu pump o'r is-is-themâu o'r unedau sy'n astudio'r sgiliau cynhyrchiol, sef Siarad (Uned 1) ac Ysgrifennu (Uned 4), ar gyfer Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg. Bydd yr is-is-themâu hyn, fodd bynnag, yn cael eu cynnwys yn yr unedau hynny sy'n asesu'r sgiliau derbyngar, sef Gwrando (Uned 2) a Darllen (Uned 3). Felly, ni fyddai canolfannau sydd wedi addysgu'r is-is-themâu hyn hyd at ddiwedd mis Gorffennaf dan anfantais a byddai angen i'r canolfannau hynny oedd heb eu haddysgu eto baratoi eu dysgwyr o ran gwybodaeth dderbyngar yn unig.

Dywedodd llawer o ymatebwyr y dylid caniatáu i ddysgwyr gael naill ai mwy o ddewis o is-is-themâu, neu gyfyngu ar yr is-is-themâu ar gyfer Siarad ac Ysgrifennu. Cynigiwyd bod dysgwyr yn dewis ac yn paratoi is-is-thema o ddewis o'r un deg wyth (18) posibl ar gyfer Rhan 1 elfen Sgwrs yr asesiad Siarad (Uned 1), ar ôl trafod â'r athro. Caiff Rhan 2 y Sgwrs ei rheoli yn y ffordd arferol.

Tynnwyd y cynnig i ganiatáu i ddysgwyr ddefnyddio geiriadur yn Uned 3 ar ôl i ganolfannau fynegi pryder. Ystyriwyd bod yr amser mae'n ei gymryd i baratoi dysgwyr i gyfieithu o'r Gymraeg/Saesneg i'r iaith a asesir yn fwy nag o'r Ffrangeg/Almaeneg/Sbaeneg i'r Gymraeg/Saesneg.

Gyda'r addasiadau hyn sicrheir fod yr holl sgiliau iaith hanfodol yn cael eu cadw. Mae hynny felly'n sicrhau y bydd y canlyniadau'n rhai dibynadwy ac yn asesiad teg o alluoedd y dysgwyr.

## Daearyddiaeth

### Cynnwys

Bydd cynnwys y fanyleb yn cael ei symleiddio fel **na** asesir y cynnwys canlynol yn 2021.

### Uned 1: Tirweddau Ffisegol a Dynol Newidiol

### Thema 1: Tirweddau a Phrosesau Ffisegol

1.1.2 Sut mae gweithgarwch dynol yn effeithio ar dirweddau ffisegol yng Nghymru?

Y sialensiau amgylcheddol sy'n cael eu creu gan weithgarwch dynol mewn un dirwedd nodedig i gynnwys effeithiau cadarnhaol a negyddol pwysau gan ymwelwyr ac economïau a chymdeithasau gwledig newidiol. Cysyniadau safleoedd pot mêl a'u cynhwysedd cludo.

1.1.3 Sut mae'n bosibl rheoli tirweddau yng Nghymru?

Strategaethau i reoli'r dirwedd, i gynnwys rheoli ymwelwyr, ac i adfer tirweddau neu amgylcheddau dan bwysau o ganlyniad i ddifrod (*er enghraifft, cynnal a chadw llwybrau troed).*

### Thema 2: Cysylltiadau gwledig–trefol

2.3.2 Beth yw canlyniadau trefoli mewn dwy ddinas global?

Ffyrdd o fyw mewn **dwy** ddinas global. Rhaid i un ddinas fod wedi'i lleoli mewn gwlad incwm isel (LIC) neu mewn gwlad newydd ei diwydianeiddio (NIC). Rhaid i'r ddinas arall fod wedi'i lleoli mewn gwlad incwm uchel (HIC). Ar gyfer pob dinas, rhaid i'r dysgwyr osod eu hastudiaethau yng nghyd-destun rhanbarthol, cenedlaethol a byd-eang y ddinas honno.

Ar gyfer pob dinas:

(a) Y rhesymau dros ei thwf i gynnwys newidiadau naturiol yn y boblogaeth ac achosion o fudo. Sut mae mudo yn cysylltu'r ddinas â'i rhanbarth dinas ac â rhannau eraill o'r byd. Ffactorau gwthio a thynnu ar gyfer mudo o'r wlad i'r dref ar raddfa ranbarthol/cenedlaethol a rhesymau dros achosion hanesyddol neu ddiweddar o fudo rhyngwladol.

(b) Ffyrdd o fyw i gynnwys patrymau cymdeithasol a diwylliannol ym mhob dinas. Cyfraniad yr economi anffurfiol yn y ddinas yn y wlad incwm isel (LIC) / newydd ei diwydianeiddio (NIC).

(c) Sialensiau trefol cyfredol i gynnwys lleihau tlodi/amddifadedd a darparu tai.

### Uned 2: Materion Amgylcheddol a Datblygiad

### Thema 5: Tywydd, Hinsawdd ac Ecosystemau

5.2.1 Beth yw achosion a chanlyniadau dau berygl sy'n gysylltiedig â'r tywydd?

Trosolwg o gylchrediad byd-eang yr atmosffer. Sut mae cylchrediad byd-eang yn creu ardaloedd o wasgedd isel **ac** uchel. Sut mae'r gwahanol systemau gwasgedd hyn yn arwain at beryglon sy'n gysylltiedig â'r tywydd.

**Gwasgedd isel:** Dosbarthiad byd-eang ardaloedd y mae corwyntoedd/seiclonau yn effeithio arnynt. Eu patrymau newidiol dros amser i gynnwys tymoroldeb blynyddol a newidiadau tymor hirach o ran amledd a maint. Astudiaeth fanwl o **un** perygl gwasgedd isel penodedig o leiaf, i gynnwys ei achosion a'r canlyniadau i bobl, yr amgylchedd a'r economi.
**Gwasgedd uchel:** Dosbarthiad byd-eang ardaloedd y mae tonnau gwres a sychder yn effeithio arnynt. Eu patrymau newidiol dros amser i gynnwys newidiadau tymor hirach o ran amledd a maint (*er enghraifft, patrymau sychder newidiol yn Awstralia neu wledydd Sahel dros y 50-100 mlynedd diwethaf)*. Astudiaeth fanwl o **un** perygl gwasgedd uchel penodedig o leiaf, i gynnwys ei achosion a'r canlyniadau i bobl, yr amgylchedd a'r economi.

**Thema 6: Materion Datblygiad ac Adnoddau**

6.3.2 A yw adnoddau dŵr yn cael eu rheoli mewn ffordd gynaliadwy?

Sut a pham mae pobl yn rheoli cyflenwadau dŵr drwy adeiladu cronfeydd dŵr ar gyfer cyflenwadau dŵr/dyfrhau a phrojectau HEP, cynlluniau trosglwyddo dŵr a thynnu dŵr daear.

Canlyniadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol rheoli dŵr ym mhob un o'r sefyllfaoedd canlynol:

1. Rheoli adnoddau dŵr ar raddfa ryngwladol, lle mae afonydd yn croesi ffiniau cenedlaethol
*2.* Project rheoli dŵr ar raddfa fach lle mae lefelau priodol o dechnoleg yn cael eu defnyddio *(er enghraifft, cynaeafu dŵr glaw).*
*3.* **Un** lleoliad lle mae gordynnu dŵr daear yn broblem a lle mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddyfodol daearyddol amgen.

**Asesu**

**Uned 1: Tirweddau Ffisegol a Dynol (40%)**

Does dim newidiadau i asesiad yr uned hon.

**Uned 2: Materion Amgylcheddol a Datblygiad (40%)**

Does dim newidiadau i asesiad yr uned hon.

**Uned 3: Ymholiad gwaith maes – Asesiad Di-arholiad (20%)**

**Ni** asesir Uned 3 yn 2021. Roedd yr uned hon i fod i’w chymryd ym mis Tachwedd/Rhagfyr 2020.

**Sail resymegol**

Mae tynnu'r ymholiad gwaith maes a'r Asesiad Di-arholiad dilynol yn lliniaru pryderon ynghylch amserlennu a threfnu ymholiadau gwaith maes a hefyd yn ystyried materion iechyd a diogelwch wrth fynd ymlaen. Mae hefyd yn cael gwared ar yr angen i asesu'r asesiad di-arholiad mewn amodau dan reolaeth uchel sy'n cymryd amser ychwanegol ym mis Tachwedd/Rhagfyr. Bydd hyn yn lleddfu rhywfaint ar y gofynion o ran addysgu a dysgu gan na fydd angen adolygu a pharatoi ar gyfer yr Asesiad Di-arholiad ar ôl dychwelyd i'r ysgol yn ystod tymor yr hydref.

Roedd yn amlwg yn y sylwadau bod pryderon o hyd am ddilyniant i'r TAG yn nhermau sgiliau a phrofiad gwaith maes. Er na fydd gwaith maes yn rhan o'r drefn asesu ffurfiol yng nghyfres 2021, gellir parhau i gynnwys sgiliau gwaith maes yn rhan o addysgu'r fanyleb yn yr ystafell ddosbarth.

Cafodd y cynnwys i'w asesu ei symleiddio ar draws y pedair thema graidd. Gwnaed hyn er mwyn gwneud iawn am y drefn wahanol o ran addysgu yn y canolfannau. Ystyriwyd symleiddio'r themâu opsiynol ond oherwydd maint y cynnwys yn y themâu hyn mae'n bosibl y byddai gwneud hynny'n golygu ei bod yn hawdd rhagweld yr asesiad. Ystyriwyd tynnu'r themâu opsiynol hefyd ond gwrthodwyd hyn gan y byddai wedi newid y marciau ar draws yr asesiad fesul arholiad a byddai dilysrwydd a chymaroldeb y cymhwyster â chyfresi'r gorffennol a'r dyfodol wedi'i gwestiynu.

Nid yw symleiddio'r cynnwys a'r sgiliau fel hyn yn effeithio ar y dilyniant i lefel 3 gan fod y cynnwys a'r sgiliau a asesir yn golygu bod yr ystod graddau lawn o fewn cyrraedd ymgeiswyr ac yn sicrhau y gall canlyniadau'r cymhwyster fod yn rhai dibynadwy.

Bydd yr addasiadau hyn yn sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal ar draws y cymhwyster ac yn gwella ei ymarferoldeb i ganolfannau.

## Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant

## GRADD UNIGOL

### Uned 1: Twf, datblygiad dynol (Arholiad ysgrifenedig) 40% Unigol

Does dim newidiadau i'r uned hon.

### Uned 2: Hybu a chynnal iechyd a llesiant (Asesiad Di-arholiad) 60% Unigol

Tynnu Tasg 2. Bydd cyfanswm yr amser asesu'n mynd i lawr i 10 awr.

### Sail resymegol

Mae Tasg 1 a Thasg 2 yn ymdrin ag AA1, AA2 ac AA3. Mae Tasg 2 yn dasg hirach. Byddai felly'n rhoi mwy o amser yn ôl i ganolbwyntio ar yr arholiad y mae angen i **bob** dysgwr ei sefyll yn haf 2021, p'un a ydynt wedi cofrestru amdano yn 2020 ai peidio. Mae'r ymdriniaeth â'r amcanion asesu yn gytbwys o hyd ac felly gallwn sicrhau bod canlyniadau'n ddibynadwy a chadw dilysrwydd yr asesiad.

Gan ystyried yr addasiad i'r asesu di-arholiad ac er mwyn cynnal manwl gywirdeb y cymhwyster hwn bydd angen i **bob dysgwr** sy'n cyfnewid yn haf 2021 sefyll y ddwy uned er mwyn gallu dyfarnu'r cymhwyster iddynt.

## Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant

### DWYRADD

**Uned 1: Twf, datblygiad dynol (Arholiad ysgrifenedig) 40% Unigol / 20% Dwyradd**

Does dim newidiadau i'r uned hon.

**Uned 2: Hybu a chynnal iechyd a llesiant (Asesiad Di-arholiad) 60% Unigol / 30% Dwyradd**

Tynnu Tasg 2. Byddai cyfanswm yr amser asesu'n mynd i lawr i 10 awr.

**Uned 3: Iechyd a gofal cymdeithasol, a gofal plant yn yr 21ain Ganrif (Arholiad ysgrifenedig) 20% Dwyradd**

Does dim newidiadau i'r uned hon.

**Uned 4: Hybu a chynnal iechyd a llesiant er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol (Asesiad Di-arholiad) 30% Dwyradd**

Ni asesir yr is-fwled cyntaf: *'dadansoddi data/ystadegau demograffig er mwyn ymchwilio i dueddiadau iechyd a thueddiadau cymdeithasol lleol a chenedlaethol sy'n ymwneud â'r anghenion/cyflwr penodol a ddewiswyd ganddynt'* yn Nhasg (b) 'Dadansoddi'r ffordd mae tueddiadau lleol a chenedlaethol, demograffeg a mentrau'r llywodraeth yn effeithio ar ddarparu gofal i'r grŵp targed a ddewiswyd'.

Mae cyfanswm yr amser asesu yn mynd i lawr o 25 awr i 20 awr.

**Sail resymegol**

Mae Tasg 1 a Thasg 2 yn ymdrin ag AA1, AA2 ac AA3. Mae Tasg 2 yn dasg hirach. Byddai felly'n rhoi mwy o amser yn ôl i ganolbwyntio ar yr arholiad y mae angen i **bob** dysgwr ei sefyll yn haf 2021, p'un a ydynt wedi cofrestru amdano yn 2020 ai peidio. Mae'r ymdriniaeth â'r amcanion asesu yn gytbwys o hyd ac felly gallwn sicrhau bod canlyniadau'n ddibynadwy a chadw dilysrwydd yr asesiad.

Gan fod Uned 4 yn dasg unigol (gydag isadrannau) mae hefyd yn gronnus. Felly mae'n fwy o her i symleiddio adrannau a sicrhau bod yr asesiad yn parhau i fod yn ystyrlon. Trwy dynnu is-fwled o dasg (b), gall dysgwyr barhau o hyd â rhannau olaf yr asesiad, gan leihau'r baich ar amser addysgu ar gyfer yr uned hon. Asesir AA3 mewn mannau eraill o hyd.

Mae'r ymdriniaeth â'r amcanion asesu yn gytbwys o hyd ac felly gallwn sicrhau bod canlyniadau'n ddibynadwy a chadw dilysrwydd yr asesiad.

Gan ystyried yr addasiad i'r asesu di-arholiad ar gyfer Uned 2 ac Uned 4 ac er mwyn cynnal manwl gywirdeb y cymhwyster hwn bydd angen i **bob** dysgwr sy'n cwblhau'r cymhwyster yn haf 2021 sefyll yr holl unedau er mwyn gallu dyfarnu'r cymhwyster iddynt.

## Hanes

**Unedau 1-3 (Arholiadau ysgrifenedig) 25%, 25% a 30%**

Sefyll unrhyw ddwy o'r tair uned a arholir (1-3) yn haf 2021*.

**Uned 4: Gweithio fel Hanesydd (Asesiad Di-arholiad) 20%**

Does dim newidiadau i'r uned hon.

**Newidiadau i'r gofynion cofrestru/cyfnewid**

Mae'n ofynnol i bob ymgeisydd sefyll – yn hytrach na chael ei gofrestru yn unig am – **ddwy** o'r **tair** uned a arholir (1-3). Y ganolfan unigol sydd i ddewis yr unedau a gallai hyn amrywio o fewn canolfan. **Byddai'r trefniant hwn yn berthnasol i rai sy'n cyfnewid yn 2021 yn unig**. Sylwer, **nid** yw'n bosibl sefyll y tair uned a arholir a chyfnewid yn 2021. Rhaid i ddysgwyr sefyll dim ond dwy o'r tair uned.

**Sail resymegol**

Ni fyddai tynnu'r asesiad di-arholiad yn arwain at ennill digon o amser yn ôl ac mae rhai canolfannau yn debygol o fod wedi cwblhau'r asesiad di-arholiad neu ran ohono.

Mae'r addasiad hwn yn golygu bod modd cofrestru am yr unedau hynny a addysgwyd yn barod ym mhob canolfan ac yn golygu bod llai o gynnwys ar ôl. Mae'r addasiad hwn yn cadw lefel y galw ac yn cynnal uniondeb yr asesiad ond yn lleihau'r cynnwys i'w asesu yn sylweddol. Ond, ymdrinnir â phob amcan asesu ac ni fydd yn effeithio ar ddilyniant i UG/U2. Fodd bynnag, byddai'n rhaid sefyll dwy uned arholiad a'r asesiad di-arholiad a dim llai yn haf 2021, p'un a gofrestrwyd ar gyfer yr uned honno yn haf 2020 ai peidio. Er bod hyn yn wahanol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan Cymwysterau Cymru pan gaeodd yr ysgolion yn gynharach eleni, cafodd y trefniadau lliniaru hyn eu cymeradwyo gan Cymwysterau Cymru fel yr hyn sydd fwyaf priodol yn achos TGAU Hanes.

## TGCH

**Uned 1: Deall TGCh (Arholiad ysgrifenedig) - Gradd Unigol 20% Cwrs Byr 40%**

Does dim newidiadau i strwythur yr uned hon.

**Uned 2: Datrys Problemau gyda TGCh (Asesiad Di-arholiad) - Gradd Unigol 30% Cwrs Byr 60%**

Does dim newidiadau i strwythur yr uned hon. Bydd CBAC yn derbyn tasgau sy'n dod i ben yn 2020 ar gyfer yr uned hon yn 2021. Mae'r gofyniad i gwblhau'r holl waith yn yr ystafell ddosbarth yn mynd yn 2021; er mwyn cynnal uniondeb yr uned a dilysu'r gwaith fel gwaith y dysgwr ei hun, dylai athrawon wirio pob adran yn yr uned wrth ei chwblhau.

**Uned 3: TGCh mewn Sefydliadau (Arholiad ysgrifenedig) - Gradd Unigol 20%**

Does dim newidiadau i strwythur yr uned hon.

**Uned 4: Datblygu Datrysiadau TGCh Amlgyfrwng (Asesiad Di-arholiad) - Gradd Unigol 30%**

Does dim newidiadau i strwythur yr uned hon. Bydd CBAC yn derbyn tasgau sy'n dod i ben yn 2020 ar gyfer yr uned hon yn 2021. Mae'r gofyniad i gwblhau'r holl waith yn yr ystafell ddosbarth yn mynd yn 2021; er mwyn cynnal uniondeb yr uned a dilysu'r gwaith fel gwaith y dysgwr ei hun, dylai athrawon wirio pob adran yn yr uned wrth ei chwblhau.

Bydd ymgeiswyr cwrs byr yn sefyll Uned 1 **ac** Uned 2 yn 2021.
Dim ond Uned 2, Uned 3 ac Uned 4 y bydd ymgeiswyr Gradd Unigol yn eu sefyll yn 2021.
Dim ond i'r ymgeiswyr hynny sy'n cyfnewid am y cwrs llawn yn 2021 y bydd hyn yn berthnasol.

**Sail resymegol**

Mae natur fodiwlaidd i'r TGAU a phedwar cyfle i sefyll yr unedau arholiad a dau gyfle i sefyll yr unedau Asesiad Di-arholiad dros gyfnod o ddwy flynedd (yn ddibynnol ar y rheol asesiad terfynol o 40%). Mae'n bosibl felly y bydd dysgwyr wedi cychwyn ar y naill neu'r llall o'r unedau Asesiad Di-arholiad.
Mae'n debygol y cofrestrwyd dysgwyr am Uned 2 yn yr haf ac y byddant o leiaf wedi cwblhau'r gwaith hwn yn rhannol. Mae cadw'r ddwy uned o asesu di-arholiad a'r angen am un arholiad yn cyfleu natur ymarferol y cymhwyster hwn ac yn lleihau'r baich ar athrawon a dysgwyr fel ei gilydd. Mae codi'r gofyniad i gwblhau'r gwaith ar gyfer asesiadau di-arholiad yn yr ystafell ddosbarth yn helpu o ran y posibilrwydd y byddai llai o fynediad ar gael i adnoddau TGCh wedi'u lleoli yn yr ystafell ddosbarth.

Mae'r addasiad hwn yn cadw lefel y galw ac yn cynnal uniondeb yr asesiad ond yn lleihau'r cynnwys i'w asesu yn sylweddol. Er bod hyn yn wahanol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan Cymwysterau Cymru pan gaeodd yr ysgolion yn gynharach eleni, cafodd y trefniadau lliniaru hyn eu cymeradwyo gan Cymwysterau Cymru fel yr hyn sydd fwyaf priodol yn achos TGAU TGCh.

## Mathemateg/Mathemateg-Rhifedd

Ar gyfer TGAU Mathemateg/Mathemateg-Rhifedd, rydym yn darparu rhestr o destunau fydd ddim yn cael eu hasesu yn unrhyw unedau a arholir y Haf 2021.

Bydd nifer mwy o destunau'n cael ei leihau ar yr Haen Uwch nag ar yr Haen Ganolradd, a bydd nifer mwy o destunau'n cael ei leihau ar yr Haen Ganolradd nag ar yr Haen Sylfaenol. Byddwn, fodd bynnag, yn sicrhau bod y papurau arholiad yn dal i gynnwys amrywiaeth briodol o gwestiynau ar gyfer y graddau sydd wedi'u targedu.

Isod, mae rhestr o'r testunau fydd ddim yn cael eu hasesu yn yr arholiadau TGAU Mathemateg na TGAU Mathemateg-Rhifedd yn Haf 2021.

Dangosir y testunau haen Sylfaenol mewn print safonol.
Tanlinellir y testunau haen Ganolradd sy'n ychwanegol i'r testunau haen Sylfaenol.
Dangosir y testunau haen Uwch sy'n ychwanegol i'r testunau haen canolradd mewn print **trwm**.

| | Testunau fydd **ddim** yn cael eu hasesu yn arholiadau Haf 2021. | Mathemateg-Rhifedd a Mathemateg *NEU* Mathemateg yn unig | Sylwadau Ychwanegol |
|---|---|---|---|
| | *Rhif* | | |
| 1 | **Deall cyfraddau blynyddol, e.e. AER, APR.** | Mathemateg-Rhifedd a Mathemateg | |
| 2 | Deall a defnyddio diagramau Venn i ddatrys problemau. | Mathemateg-Rhifedd a Mathemateg | |
| | *Algebra* | | |
| 3 | Darganfod yr *n*fed term mewn dilyniant lle mae'r rheol yn gwadratig. | Mathemateg yn unig | Gellid asesu'r canlynol: Darganfod yr *n*fed term mewn dilyniant lle mae'r rheol yn llinol. |
| 4 | **Lluniadu, dehongli, adnabod a braslunio graffiau** $y = \frac{a}{x}$**,**<br>$y = ax^3$**.**<br><br>**Lluniadu a dehongli graffiau**<br>$y = ax^3 + b$**.**<br><br>**Lluniadu a dehongli graffiau**<br>$y = ax + b + \frac{a}{x}$ **lle nad yw** $x$ **yn hafal i 0,**<br>$y = ax^3 + bx^2 + cx + d$**,**<br>**y =** $k^x$ **ar gyfer gwerthoedd cyfanrifol o** $x$ **a gwerthoedd positif syml o** $k$.<br><br>Lluniadu a dehongli graffiau pan roddir y yn ymhlyg yn nhermau x. | Mathemateg yn unig | Gellid asesu lluniadu, dehongli, adnabod a braslunio graffiau o ffwythiannau llinol a chwadratig. |
| 5 | **Defnyddio graffiau llinell syth i leoli rhanbarthau a roddir gan anhafaleddau llinol.** | Mathemateg yn unig | |
| 6 | Gwahaniaethu rhwng ystyr y geiriau hafaliad, fformiwla, **unfathiant** a mynegiad. | Mathemateg yn unig | Dim ond **unfathiant** fydd ddim yn cael ei asesu. Gellid asesu'r canlynol: Gwahaniaethu rhwng ystyr y geiriau hafaliad, fformiwla a mynegiad. |

| | Testunau fydd **ddim** yn cael eu hasesu yn arholiadau Haf 2021. | Mathemateg-Rhifedd a Mathemateg *NEU* Mathemateg yn unig | Sylwadau Ychwanegol |
|---|---|---|---|
| | *Geometreg a Mesur* | | |
| 7 | Dehongli a lluniadu rhwydi. | Mathemateg-Rhifedd a Mathemateg | |
| 8 | *Lluniadu* cynrychioliadau 2 ddimensiwn o siapiau 3 dimensiwn, gan gynnwys defnyddio papur isometrig. | Mathemateg-Rhifedd a Mathemateg | Gellid asesu'r canlynol:<br>*Defnyddio* cynrychioliadau 2 ddimensiwn o siapiau 3 dimensiwn (ond nid rhai a luniadwyd ar bapur isometrig). |
| 9 | Haneru llinell benodol, haneru ongl benodol.<br>Llunio'r perpendicwlar o bwynt i linell. | Mathemateg-Rhifedd a Mathemateg | Gellid asesu'r canlynol (ond nid mewn cwestiynau sy'n asesu lluniadau):<br>Defnyddio pren mesur, cwmpas ac onglydd yn fanwl gywir. |
| 10 | Llunio siapiau 2 ddimensiwn o wybodaeth a roddir a lluniadu cynlluniau a golygon unrhyw solid 3 dimensiwn. | Mathemateg-Rhifedd a Mathemateg | |
| 11 | Defnyddio pren mesur a chwmpas i wneud lluniadau.<br><br>Llunio trionglau, pedrochrau a chylchoedd.<br><br>Llunio onglau o 60°, 30°, 90° a 45°. | Mathemateg yn unig | |
| 12 | Adnabod siapiau cyfath.<br><br>**Deall a defnyddio amodau SSS, SAS, ASA ac RHS i brofi cyfathiant trionglau gan ddefnyddio dadleuon ffurfiol.**<br>**Gall fod angen rhoi rhesymau wrth ddatrys problemau sy'n ymwneud â thrionglau cyfath.** | Mathemateg yn unig | |
| 13 | Defnyddio priodweddau ongl a thangiad cylchoedd.<br>Deall bod y tangiad ar unrhyw bwynt ar gylch yn berpendicwlar i'r radiws ar y pwynt hwnnw.<br><br>Defnyddio'r ffeithiau bod yr ongl a gynhelir gan arc yng nghanol cylch ddwywaith maint yr ongl a gynhelir ar unrhyw bwynt ar y cylchyn, bod yr ongl a gynhelir ar y cylchyn gan hanner cylch yn ongl sgwâr, bod onglau yn yr un segment yn hafal, a bod onglau cyferbyn pedrochr cylchol yn adio i 180°.<br><br>**Defnyddio theorem y segment eiledol.**<br><br>Deall a defnyddio'r ffaith bod hyd tangiadau o bwynt allanol yn gyfartal.<br><br>**Deall a llunio profion geometregol gan ddefnyddio theoremau'r cylch.** | Mathemateg yn unig | |

| | Testunau fydd **ddim** yn cael eu hasesu yn arholiadau Haf 2021. | Mathemateg-Rhifedd a Mathemateg *NEU* Mathemateg yn unig | Sylwadau Ychwanegol |
|---|---|---|---|
| 14 | Mae lleoliad yn cael ei bennu gan y pellter o bwynt penodol a'r ongl sy'n cael ei wneud gyda llinell benodol. | Mathemateg yn unig | |
| 15 | Datrys problemau yng nghyd-destun patrymau teilio a brithwaith. | Mathemateg-Rhifedd a Mathemateg | |
| 16 | Llunio locws pwynt sy'n symud fel ei fod yn bodloni amodau penodol, er enghraifft,<br>(i) yn bellter penodol o bwynt neu linell sefydlog,<br>(ii) yn gytbell o ddau bwynt neu ddwy linell sefydlog.<br><br>Datrys problemau lle mae loci croestoriadol mewn dau ddimensiwn.<br>Gall cwestiynau ar loci gynnwys anhafaleddau. | Mathemateg-Rhifedd a Mathemateg | |
| 17 | Gwahaniaethu rhwng fformiwlâu ar gyfer hyd, arwynebedd a chyfaint trwy ystyried dimensiynau. | Mathemateg-Rhifedd a Mathemateg | |
| 18 | Defnyddio mesurau cyfansawdd: dwysedd a dwysedd poblogaeth.<br>Defnyddio mesurau cyfansawdd sy'n ymwneud â dwysedd, fel $kg/m^3$, $g/cm^3$, poblogaeth y $km^2$ | Mathemateg-Rhifedd a Mathemateg | Gellid asesu'r holl fesurau cyfansawdd sydd ddim yn ymwneud â dwysedd, e.e. cyflymder. |
| | *Ystadegaeth* | | |
| 19 | Nodi'r data sydd eu hangen ac ystyried dulliau samplu posibl.<br>Samplu'n systematig<br>**Gweithio gyda thechnegau samplu wedi'u haenu a diffinio sampl ar hap.** | Mathemateg-Rhifedd a Mathemateg | Gellid asesu'r canlynol:<br>Ystyried effaith maint sampl a ffactorau eraill sy'n effeithio ar ddibynadwyedd y casgliadau a wnaed. |
| 20 | Llunio a beirniadu cwestiynau ar gyfer holiadur, gan gynnwys y syniad o degwch a thuedd. | Mathemateg-Rhifedd a Mathemateg | Bydd angen i ddysgwyr ddeall y syniad o degwch a thuedd, ond nid yng nghyd-destun holiaduron. |
| 21 | Amcangyfrif tebygolrwydd digwyddiad fel y gyfran o weithiau mae wedi digwydd.<br><br>Amlder cymharol.<br><br>Deall sefydlogrwydd tymor hir amlder cymharol.<br><br>Cynrychioliad graffigol o amlder cymharol yn erbyn nifer y treialon.<br><br>Amcangyfrif tebygolrwyddau sy'n seiliedig ar dystiolaeth arbrofol.<br><br>Cymharu tebygolrwydd a amcangyfrifwyd ar sail canlyniadau arbrofol, â thebygolrwydd damcaniaethol. | Mathemateg yn unig | Gellid asesu'r canlynol:<br>Cyfrifo tebygolrwyddau damcaniaethol sy'n seiliedig ar ganlyniadau sydd yr un mor debygol. |
| 22 | Nodi holl ganlyniadau cyfuniad o ddau arbrawf gan ddefnyddio diagramau Venn. | Mathemateg yn unig | Gellid asesu nodi canlyniadau gan ddefnyddio pob dull arall. |

**Sail resymegol**

Gan ei bod yn bosibl asesu cynnwys cyfan pob TGAU naill ai yn Uned 1 neu Uned 2, ni fyddai'n bosibl tynnu unedau o'r naill neu'r llall yn unig neu o’r ddwy TGAU. Yr unig ddewis ymarferol, felly, yw lleihau cynnwys o wahanol adrannau o'r cynnwys pwnc ar draws y cymwysterau.

Ystyriwyd tynnu testunau o un neu'r llall yn unig o'r ddwy TGAU. Fodd bynnag, mae ysgolion gwahanol yn addysgu'r cynnwys mewn trefn wahanol a gallai hynny fod wedi rhoi rhai ysgolion dan anfantais. Mae dewis cymysgedd o destunau ar draws y ddwy TGAU yn debygol o sicrhau bod yr addasiad yn fwy cyfartal i bob dysgwr.

Mae'r addasiad hwn yn cadw lefel y galw ac yn cynnal uniondeb yr asesiad ond yn lleihau'r cynnwys i'w asesu yn sylweddol.

## Astudio’r Cyfryngau

### Uned 1: Archwilio'r Cyfryngau (Arholiad Ysgrifenedig) 30%

Does dim newidiadau i'r uned hon.

### Uned 2: Deall Teledu a Ffilm (Arholiad Ysgrifenedig) 30%

Mae dysgwyr yn cwblhau naill ai Adran A neu Adran B o'r arholiad Uned 2.

### Uned 3: Creu Cyfryngau – Asesiad Di-arholiad (40%)

- Lleihau Asesiad Di-arholiad Uned 3: Byddai dysgwyr yn cyflawni agweddau ymchwil, cynllunio a dadansoddiad myfyriol yr uned hon fel yr amlinellir yn y Fanyleb
- **Byddai dysgwyr yn cwblhau elfen Gynhyrchu sy’n llai – un dudalen ar gyfer bob cynhyrchiad print neu ar-lein, yn lle tair tudalen; un funud o gynhyrchiad delwedd symudol yn lle munud a hanner, un hysbyseb yn lle dwy.**

### Sail resymegol

Bydd lleihau'r asesiad di-arholiad yn caniatáu blaenoriaethu'r asesiad a arholir. Mae gofynion gweithio o bell am gyfnod hir o amser wedi effeithio ar allu'r dysgwyr i gwblhau elfen gynhyrchu ymarferol yr asesiad di-arholiad ar gyfer 2021. Gallai hyn barhau yn y dyfodol rhagweladwy. Efallai na fydd gan ddysgwyr fynediad at offer ac adnoddau arbenigol (e.e. meddalwedd golygu, DTP ac ati). Mae problemau wedi bod o ran mynediad o fewn canolfannau hefyd, e.e. ysgolion yn gweithio mewn 'swigod', sy'n golygu diffyg mynediad i ystafelloedd/cyfleusterau TG, rhannu bysellfyrddau ac ati.

Mae lleihau'r elfen gynhyrchu yn dal i sicrhau yr ymdrinnir â phob amcan asesu, felly nid yw dilysrwydd y cymhwyster yn cael ei gyfaddawdu. Mae dysgwyr yn dal i gwblhau 50% o'r gwaith cynhyrchu ar gyfer yr Asesiad Di-arholiad a'r rhan fwyaf o unedau'r arholiad felly cynhelir manwl gywirdeb y cymhwyster. Mae'r dysgwyr yn barod felly i fynd ymlaen i addysg bellach ar sail yr ymdriniaeth hon.

Drwy leihau'r asesiad yn Uned 2 gwneir iawn am yr amser addysgu a dysgu a gollwyd ym mhob canolfan, gan gynnwys y canolfannau hynny sydd eisoes wedi cwblhau'r gydran Asesu Di-arholiad. Mae cynnig dewis rhwng y ddwy adran i ddysgwyr yn gwrthbwyso unrhyw faterion yn ymwneud ag ym mha drefn y mae'r canolfannau wedi dewis addysgu cynnwys y cwrs. Asesir yr un AA yn y ddwy adran.

Mae lleihau'r cynnwys pwnc yn Uned 2 yn golygu bod ehangder y cynnwys pwnc yn lleihau (un diwydiant yn y cyfryngau o ddewis o ddau), yn hytrach na'r dyfnder. Drwy wneud hyn gall dysgwyr ddangos gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau allweddol astudio'r cyfryngau (AA1) a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o gysyniadau allweddol astudio'r cyfryngau at ddadansoddi cynhyrchion y cyfryngau a gwerthuso eu gwaith ymarferol eu hunain (AA2), gan alluogi dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau sy'n angenrheidiol i fynd ymlaen i addysg bellach.

## Cerddoriaeth

### Uned 1: Perfformio (Asesiad Di-arholiad) 35%

Lleihau'r lleiafswm amser perfformio gofynnol o 4 munud i 3 munud. Bydd tabl cyfrifo cosbau wedi'i addasu yn cael ei gyhoeddi i'w ddefnyddio yn 2021.

Mae'r perfformiad ensemble yn ddewisol fel rhan o'r 3 munud i alluogi canolfannau i gydymffurfio â mesurau ymbellhau cymdeithasol. Mae dysgwyr sy'n gallu recordio ensemble yn dal i allu gwneud hynny os yw'n well ganddynt.

Mae angen y nodyn rhaglen o hyd, a dylid perfformio un neu fwy o ddarnau i gyrraedd y cyfanswm amser.

### Uned 2: Cyfansoddi (Asesiad Di-arholiad) 35%

Lleihau'r gofyniad i un cyfansoddiad yn unig. Bydd y briffiau'n dal i gael eu rhyddhau yn ôl yr arfer ond bydd dewis o ran eu defnyddio ai peidio. Fel canllaw, dylai'r cyfansoddiad fod rhwng 1½ a 3 munud o hyd.

Ni fydd gofyn i ddysgwyr gyflwyno'r gwerthusiad.

### Uned 3: Arfarnu (Arholiad) 30%

Does dim newidiadau i'r uned hon.

### Sail resymegol

Ymdrinnir â phob amcan asesu drwy'r cymhwyster o hyd. Mae'r gostyngiadau yn y gofynion perfformio a chyfansoddi yn gwneud iawn am yr amser addysgu a dysgu a gollwyd. Mae'r newid yn y gofyniad ensemble yn caniatáu i'r asesiad gael ei gynnal wrth ddilyn canllawiau ymbellhau cymdeithasol. Newidiwyd yr addasiad i gyfleu'r adborth, a gall y cyflwyniad Perfformio yn Uned 1 gynnwys un neu fwy o ddarnau.

Newidiwyd yr addasiad i egluro y bydd y briffiau'n cael eu rhyddhau fel arfer, ond dewis y dysgwyr yw eu defnyddio ai peidio. Yn dilyn adborth penderfynwyd na fyddai angen i ddysgwyr gyflwyno eu gwerthusiad gan y teimlai athrawon y gallai fod oedi i'r dysgwyr wrth gwblhau'r cyfansoddiad oherwydd cyfyngiadau ar y defnydd o offer. Ni fyddai ganddynt felly ddigon o amser i werthuso eu gwaith yn feddylgar.

Teimlwyd na fyddai tynnu cwestiynau o'r arholiad ysgrifenedig yn lleihau amser addysgu a dysgu, gan fod cwestiynau'n dibynnu ar sgiliau yn fwy na chofio ffeithiau. Byddai tynnu gwaith gosod yn rhoi'r canolfannau hynny a oedd eisoes wedi dysgu'r agwedd hon dan anfantais.

Nid yw'n bosibl gwneud rhagor o ran lliniaru heb gyfaddawdu uniondeb y TGAU. Mae'r addasiad hwn yn cadw lefel y galw ac yn cynnal uniondeb yr asesiad ond yn lleihau'r asesiad yn sylweddol.

## Addysg Gorfforol (Cwrs Llawn)

### Uned 1: Cyflwyniad i Addysg Gorfforol (Arholiad ysgrifenedig) 50%

Does dim newidiadau i'r uned hon.

### Uned 2: Y cyfranogwr gweithredol mewn addysg gorfforol (Asesiad Di-arholiad) 50%

1. Tynnu'r gofyniad i gymryd rhan mewn gweithgaredd tîm. Ond, bydd gweithgareddau tîm yn dal i fod yn opsiwn i'w asesu yn 2021.
2. Lleihau’r gofyniad i gymryd rhan mewn gweithgareddau o dri gweithgaredd i unrhyw ddau weithgaredd
3. Ni fydd gofyn i ddysgwyr gyflwyno rhaglen ffitrwydd personol.

### Sail resymegol

Bydd tynnu'r gofyniad i gymryd rhan mewn gweithgaredd tîm yn golygu y gall dysgwyr gydymffurfio â'r canllawiau ymbellhau cymdeithasol. Lleihawyd nifer y gweithgareddau o dri i ddau er mwyn gwneud iawn am yr amser addysgu a dysgu a gollwyd ac i gydnabod y ffaith bod cyfyngiadau o hyd ar gymryd rhan mewn llawer o gampau, rhai tîm ac yn unigol, ac y byddai hynny felly'n cyfyngu'r dewisiadau i ddysgwyr. Bydd tynnu'r rhaglen ffitrwydd personol hefyd yn gwneud iawn am yr amser addysgu a dysgu a gollwyd. Er bod hyn yn tynnu rhan o AA4 – Dadansoddi a gwerthuso perfformiad, ymdrinnir ag agweddau ar hyn yn AA3 - Dadansoddi a gwerthuso'r ffactorau sy'n sail i berfformiad a chyfranogiad mewn gweithgaredd corfforol a chwaraeon. Nid yw'n bosibl gwneud rhagor o ran lliniaru heb gyfaddawdu uniondeb y TGAU. Mae'r addasiad hwn yn cadw lefel y galw ac yn cynnal uniondeb yr asesiad ond yn lleihau'r cynnwys i'w asesu yn sylweddol.

## Addysg Gorfforol (Cwrs Byr)

### Uned 1: Cyflwyniad i Addysg Gorfforol (Arholiad ysgrifenedig) 50%

Does dim newidiadau i'r uned hon.

### Uned 2: Y cyfranogwr gweithredol mewn addysg gorfforol (Asesiad Di-arholiad) 50%

1. Nid yw'n ofynnol i ddysgwyr gymryd rhan mewn gweithgaredd tîm. Ond, bydd gweithgareddau tîm yn dal i fod yn opsiwn i'w asesu yn 2021.
2. Lleihau’r gofyniad i gymryd rhan mewn gweithgareddau o ddau weithgaredd i un gweithgaredd.

### Sail resymegol

Bydd tynnu'r gofyniad i gymryd rhan mewn dau weithgaredd yn golygu y gall dysgwyr gydymffurfio â chanllawiau ymbellhau cymdeithasol, ac yn cynnig amser yn ôl o ran cyfranogi, asesu a chymedroli. Mae'r addasiad hwn yn cadw lefel y galw ac yn cynnal uniondeb yr asesiad ond yn lleihau baich yr asesu.

## Astudiaethau Crefyddol

**Uned 1: Ymatebion Crefyddol i Themâu Athronyddol 50%**

Cynnig dewis yn y papur cwestiynau a fydd yn galluogi dysgwyr i ddewis unrhyw 3 o'r 4 cwestiwn i'w hateb ar Uned 1.

**Unedau 2/3: Ymatebion Crefyddol i Themâu Moesegol 50%**

Cynnig dewis yn y papur cwestiynau a fydd yn galluogi dysgwyr i ddewis unrhyw 3 o'r 4 cwestiwn i'w hateb ar Uned 2/3.

**Pob Uned**

Bydd yr addasiadau hyn yn effeithio ar yr amseru; yn lle 120 munud, bydd pob uned yn 95 munud o hyd (5 munud ychwanegol i ddysgwyr ddod i arfer â'r cyfarwyddiadau newydd).
Bydd y marciau SAaG yn berthnasol i ba un bynnag o'r cwestiynau rhan B y mae dysgwyr yn dewis ei ateb (neu'r cyntaf os byddant yn dewis ateb y ddau).
Caiff y gofyniad i asesu credoau nad ydynt yn gredoau crefyddol ei atal yn y papur Uned 1.

**Newidiadau i'r gofynion cofrestru/cyfnewid**

Mae'r addasiad hwn yn gwneud mwy na'r cynnig gwreiddiol. Oherwydd hynny, mae gofyn i bob dysgwr sefyll y ddwy uned, hyd yn oed pe byddent wedi cofrestru am un uned yn haf 2020. Mae tudalen 3 y ddogfen hon yn rhoi gwybodaeth bellach am hyn.

**Sail resymegol**:

Penderfynwyd addasu pob Uned am y rhesymau canlynol:

Mae lleihau cynnwys i'w asesu yn 2021, 25% o'r cynnwys ar draws y cymhwyster, yn cynnal uniondeb, manwl gywirdeb ac enw da y TGAU hwn.

Bydd dysgwyr Cwrs Byr sy'n sefyll y cymhwyster ym mlwyddyn 11 hefyd yn elwa o'r addasiad hwn.

Mae'n amhosibl gwneud iawn am y drefn wahanol yr addysgwyd y cwrs gan ganolfannau. Gall canolfannau felly ddewis eu hunain pa destun (allan o'r pedwar) fydd ddim yn cael ei asesu.

Bydd hyn yn gwneud iawn am yr amser addysgu a gollwyd, ac yn cynnal o hyd y gofyniad i asesu'r ddau amcan asesu ar draws y tri chwestiwn sy'n weddill. Mae hyn yn golygu y bydd y cymhwyster yn ddilys ac yn meddu ar uniondeb fel TGAU.

## Y GWYDDORAU

### Bioleg/Cemeg/Ffiseg

**Unedau 1 + 2:**
**Arholiadau ysgrifenedig (90%)**

Does dim newidiadau i asesiad yr unedau hyn.

Tynnu'r gofyniad i ymgeiswyr gwblhau'r gwaith ymarferol penodol eu hunain. Dylid defnyddio arddangosiadau athrawon, clipiau fideo ac efelychiadau yn lle hynny.

**Uned 3: Asesiad Ymarferol (10%)**

Ni asesir Uned 3 yn 2021.

**Sail resymegol**

Oherwydd y mesurau ymbellhau cymdeithasol, mae'n anodd i ddysgwyr gyflawni'r gwaith ymarferol mewn grŵp sy'n angenrheidiol i gwblhau'r gwaith ymarferol penodol (ac amrywiol dasgau ymarferol eraill) a'r asesiad ymarferol Uned 3. Mae tynnu'r gofyniad i'r ymgeiswyr gwblhau unrhyw waith ymarferol eu hunain yn gostwng yr amser addysgu yn sylweddol ar draws unedau bioleg, cemeg a ffiseg. Dylid defnyddio arddangosiadau athrawon, clipiau fideo, efelychiadau ac adnoddau priodol eraill i ddarparu profiad sylfaenol o ddulliau ymarferol perthnasol. Bydd yr amser sy'n cael ei arbed yn paratoi a chynnal yr asesiad Uned 3 yn ystod cyfnod arholi ymarferol Ionawr-Chwefror hefyd yn gwneud iawn am yr amser addysgu a dysgu a gollwyd ar draws y cymhwyster. Mae'r addasiad hwn yn cadw lefel y galw ac yn cynnal uniondeb yr asesiad ond yn lleihau baich y gwaith ymarferol.

Yn y wybodaeth am gofrestru ar gyfer haf 2021 a gyhoeddwyd gan Cymwysterau Cymru ar 27 Mawrth 2020, nodir nad oes angen i ddysgwyr Blwyddyn 11 sefyll yr unedau a gofrestrwyd ganddynt yn haf 2020 yn haf 2021. Dim ond yr unedau hynny yr oeddent yn bwriadu eu sefyll yn 2021 y mae angen iddynt eu sefyll i ennill y cymhwyster TGAU llawn.

**Gwyddoniaeth (Dwyradd)**

**Unedau 1 - 6:**
**Bioleg 1 / Cemeg 1 / Ffiseg 1 / Bioleg 2 / Cemeg 2 / Ffiseg 2**
**Arholiadau ysgrifenedig (90%)**

Does dim newidiadau i asesiad yr unedau hyn.

Tynnu'r gofyniad i ymgeiswyr gwblhau'r gwaith ymarferol penodol eu hunain. Dylid defnyddio arddangosiadau athrawon, clipiau fideo ac efelychiadau yn lle hynny.

**Uned 7: Asesiad Ymarferol (10%)**

Ni asesir Uned 7 yn haf 2021.

**Sail resymegol**

Oherwydd y mesurau ymbellhau cymdeithasol, mae'n anodd i ddysgwyr gyflawni'r gwaith ymarferol mewn grŵp sy'n angenrheidiol i gwblhau'r gwaith ymarferol penodol (ac amrywiol dasgau ymarferol eraill) a'r asesiad ymarferol Uned 7. Mae tynnu'r gofyniad i'r ymgeiswyr gwblhau unrhyw waith ymarferol eu hunain yn lleihau'r amser addysgu yn sylweddol ar draws unedau bioleg, cemeg a ffiseg. Dylid defnyddio arddangosiadau athrawon, clipiau fideo, efelychiadau ac adnoddau priodol eraill i ddarparu profiad sylfaenol o ddulliau ymarferol perthnasol. Bydd yr amser sy'n cael ei arbed yn paratoi a chynnal yr asesiad Uned 7 yn ystod cyfnod arholiad ymarferol Ionawr-Chwefror hefyd yn gwneud iawn am yr amser addysgu a dysgu a gollwyd ar draws y cymhwyster. Mae'r addasiad hwn yn cadw lefel y galw ac yn cynnal uniondeb yr asesiad ond yn lleihau baich y gwaith ymarferol.

## Gwyddoniaeth Gymhwysol (Dwyradd)

**Unedau 1 - 3:**
**Arholiadau ysgrifenedig (70%)**

Does dim newidiadau i asesiad yr unedau hyn.

Tynnu'r gofyniad i ymgeiswyr gwblhau'r gwaith ymarferol penodol eu hunain. Dylid defnyddio arddangosiadau athrawon, clipiau fideo ac efelychiadau yn lle hynny.

**Uned 4: Asesiad Seiliedig ar Dasgau (20%)**

Ni fydd gofyn i ddysgwyr gwblhau'r tasgau casglu a chofnodi, dadansoddi a gwerthuso o Weithgaredd 1.

Mae pob rhan arall o'r uned yn aros. Symud y cyfnod asesu o ddydd Llun 2 Tachwedd – dydd Gwener 18 Rhagfyr 2020 i ddydd Llun 22 Chwefror – Dydd Gwener 26 Mawrth.

**Uned 5: Asesiad Ymarferol (10%)**

Ni asesir Uned 5 yn haf 2021.

**Sail resymegol**

Oherwydd y mesurau ymbellhau cymdeithasol, mae'n anodd i ddysgwyr gyflawni'r gwaith ymarferol mewn grŵp sy'n angenrheidiol i gwblhau'r gwaith ymarferol penodol (ac amrywiol dasgau ymarferol eraill) a'r asesiad ymarferol Uned 5. Mae tynnu'r gofyniad i'r ymgeiswyr gwblhau unrhyw waith ymarferol eu hunain yn lleihau'r amser addysgu yn sylweddol. Dylid defnyddio arddangosiadau athrawon, clipiau fideo, efelychiadau ac adnoddau priodol eraill i ddarparu profiad sylfaenol o ddulliau ymarferol perthnasol. Mae'r asesiad seiliedig ar dasgau yn Uned 4 yn rhan hanfodol o asesiad y cymhwyster hwn ac yn gwneud y cymhwyster yn un unigryw. Mae tynnu'r rhan o Weithgaredd 1 sy'n gofyn am waith ymarferol gan yr ymgeiswyr eu hunain yn caniatáu i weddill yr uned aros. Mae symud cyfnod asesu'r uned yn nes ymlaen yn y flwyddyn academaidd yn rhoi mwy o amser i'r canolfannau baratoi. Gan fod canolfannau'n arbed amser yn paratoi ac yn cynnal asesiadau ar gyfer cyfnodau arholi Tachwedd-Rhagfyr ac Ionawr-Chwefror, mae'r cyfnod hwn hefyd ar gael i addysgu. Mae'r addasiad hwn yn cadw lefel y galw ac yn cynnal uniondeb yr asesiad ond yn lleihau baich y gwaith ymarferol.

**Gwyddoniaeth Gymhwysol (Gradd Unigol)**

**Unedau 1 - 2:**
**Arholiadau ysgrifenedig (70%)**

Does dim newidiadau i asesiad yr unedau hyn.

Tynnu'r gofyniad i ymgeiswyr gwblhau'r gwaith ymarferol penodol eu hunain. Dylid defnyddio arddangosiadau athrawon, clipiau fideo ac efelychiadau yn lle hynny.

**Uned 3: Asesiad Seiliedig ar Dasgau (20%)**

Ni fydd gofyn i ddysgwyr gwblhau'r tasgau casglu a chofnodi, dadansoddi a gwerthuso o Weithgaredd 1.

Mae pob rhan arall o'r uned yn aros. Symud y cyfnod asesu o ddydd Llun 2 Tachwedd – dydd Gwener 18 Rhagfyr 2020 i ddydd Llun 22 Chwefror – Dydd Gwener 26 Mawrth.

**Uned 4: Asesiad Ymarferol (10%)**

Ni asesir Uned 4 yn haf 2021.

**Sail resymegol**

Oherwydd y mesurau ymbellhau cymdeithasol, mae'n anodd i ddysgwyr gyflawni'r gwaith ymarferol mewn grŵp sy'n angenrheidiol i gwblhau'r gwaith ymarferol penodol (ac amrywiol dasgau ymarferol eraill) a'r asesiad ymarferol Uned 4. Mae tynnu'r gofyniad i'r ymgeiswyr gwblhau unrhyw waith ymarferol eu hunain yn lleihau'r amser addysgu yn sylweddol. Dylid defnyddio arddangosiadau athrawon, clipiau fideo, efelychiadau ac adnoddau priodol eraill i ddarparu profiad sylfaenol o ddulliau ymarferol perthnasol. Mae'r asesiad seiliedig ar dasgau yn Uned 3 yn rhan hanfodol o asesiad y cymhwyster hwn ac yn gwneud y cymhwyster yn un unigryw. Mae tynnu'r rhan o Weithgaredd 1 sy'n gofyn am waith ymarferol gan yr ymgeiswyr eu hunain yn caniatáu i weddill yr uned aros. Mae symud cyfnod asesu'r uned yn nes ymlaen yn y flwyddyn academaidd yn rhoi mwy o amser i'r canolfannau baratoi. Gan fod canolfannau'n arbed amser yn paratoi ac yn cynnal asesiadau ar gyfer cyfnodau arholi Tachwedd-Rhagfyr ac Ionawr-Chwefror, mae'r cyfnod hwn hefyd ar gael i addysgu. Mae'r addasiad hwn yn cadw lefel y galw ac yn cynnal uniondeb yr asesiad ond yn lleihau baich y gwaith ymarferol.

## Cymraeg Iaith

**Uned 1: Asesiad Di-arholiad – Llafaredd (30%)**

**Ni** asesir Tasg 2 Ymateb a Rhyngweithio (trafodaeth grŵp – tua 10 munud) yn 2021.

Amodau rheoli Tasg 1: Bydd y Cyflwyniad wedi'i Ymchwilio'n Unigol yn fwy goddefol fel y gall y myfyrwyr hynny nad ydynt yn gallu mynychu'r ysgol neu'r coleg gwblhau eu cyflwyniadau.

**Uned 2: Asesiad Allanol Darllen ac Ysgrifennu: Disgrifio, Naratif ac Esbonio (35%)**

Bydd gan ddysgwyr ddewis rhwng disgrifio ac esbonio ar gyfer Adran B yn Uned 2 yn haf 2021. Ni fydd naratif yn cael ei asesu yn haf 2021.

**Uned 3: Asesiad Allanol Darllen ac Ysgrifennu: Trafod, Perswâd a Chyfarwyddiadol (35%)**

1. Adran B – Ysgrifennu: Bydd y dysgwyr yn cael y dewis i ymateb i **naill ai'r** dasg dadlau **neu'r** dasg perswâd.
2. Bydd hyd y papur arholiad yn mynd i lawr o 2 awr i 1 ½ awr.

**Sail resymegol**

Uned 1 – Ni fydd y symbyliadau sydd fel arfer yn cael eu rhyddhau ar ddechrau Medi yn digwydd ym Medi 2020 ar gyfer cyfres haf 2021. Mae hon yn dasg grŵp a bydd tynnu'r dasg hon yn lleihau'r baich gweinyddol ac yn hwyluso trefniadau bod y dysgwyr yn cydymffurfio â chanllawiau pellter cymdeithasol. Mae Tasg 1, Cyflwyniad Unigol ar sail ymchwil yn parhau a bydd disgwyl i ganolfannau asesu sgiliau llafar dysgwyr gan gyflwyno marciau a sampl ar gyfer cymedroli ar sail y dasg hon. Ar gyfer Asesiad Diarholiad Uned 1 – tasg unigol, bydd mwy o hyblygrwydd yn yr amodau rheoli ar gyfer y myfyrwyr hynny nad oeddent yn gallu mynychu'r ysgol neu'r coleg i gwblhau cyflwyniadau. Bydd CBAC yn caniatáu recordio'r dasg o bell gyda'r holl nodiadau i'w hanfon yn electronig at yr athro/tiwtor. Bydd cyfyngu'r mathau o ysgrifennu i ddau yn Uned 2 a chynnig dewis o dasgau ysgrifennu yn Uned 3 yn helpu i leddfu'r amser paratoi sy'n angenrheidiol ar gyfer y ddwy uned hyn. Mae'r addasiadau hyn yn cadw lefel y galw ac yn cynnal uniondeb yr asesiad ond yn lleihau baich yr asesu.

## Llenyddiaeth Gymraeg

### Uned 1: Barddoniaeth Arholiad Ysgrifenedig (25%)

Does dim newidiadau i'r uned hon.

### Uned 2: Nofel Arholiad Ysgrifenedig (25%)

Does dim newidiadau i'r uned hon.

### Uned 3: Llenyddiaeth Weledol Arholiad Llafar (25%)

1. Astudio ffilm yn unig – tynnu'r testun printiedig o'r asesiad
2. Lleihau hyd yr arholiad – 15 munud yn lle 20 munud

### Uned 4: Asesiadau Di-arholiad – Tasgau Ysgrifenedig (25%)

Does dim newidiadau i'r uned hon.

### Newidiadau i'r gofynion cofrestru/cyfnewid

Mae Asesiad Diarholiad Uned 4 yn aros yn gyflawn ac mae'n orfodol.

Mae'n ofynnol i bob ymgeisydd sefyll – yn hytrach na chael ei gofrestru yn unig – am **un** o'r **ddwy** uned arholiad ysgrifenedig (Uned 1 **neu** Uned 2). Y ganolfan unigol sydd i ddewis yr uned a gallai hyn amrywio o fewn canolfan. **Byddai'r trefniant hwn yn berthnasol i rai sy'n cyfnewid yn 2021 yn unig.** Sylwer, **nid** yw'n bosibl i ddysgwyr ddewis sefyll Uned 1 ac Uned 2. Os safodd dysgwr Uned 1 yn flaenorol yn Ionawr 2020, gan dderbyn gradd uned ond heb gyfnewid gall ailsefyll yr uned honno neu ddefnyddio gradd yr uned i'w chyfnewid. Ni allant sefyll Uned 2.

Gall dysgwyr sefyll yr arholiad Uned 1 (os ydynt yn dewis gwneud hynny) naill ai yn Ionawr 2021, haf 2021 neu'r ddau.

### Sail resymegol

Bydd tynnu uned gyfan yn gwneud iawn am yr amser addysgu a dysgu a gollwyd ac yn helpu canolfannau i benderfynu ar y dull fyddai'n fwyaf addas i'w dysgwyr a'r patrymau cofrestru. Gall ymgeiswyr a gofrestrwyd am Uned 1 yng ngaeaf 2020 neu haf 2020 heb gyfnewid ddewis sefyll Uned 1 neu Uned 2 yn 2021. Drwy sefyll tair o'r pedair uned mae ymgeiswyr yn dal i ymdrin â'r tri Amcan Asesu.

Mae cadw'r arholiad llafar (wedi'i asesu gan athrawon) a'r Asesiad Diarholiad yn golygu yr asesir pob dysgwr drwy arholiad(au) ysgrifenedig ac asesiad athrawon wedi'i gymedroli gan CBAC. Ni fydd newidiadau i'r papurau cwestiynau ysgrifenedig na'r tasgau Uned 4 na'r cynlluniau marcio. Bydd y papurau a'r cynlluniau marcio Uned 3 yn cael eu diwygio i ddangos nad oes angen cymharu na chyfeirio at y testun ysgrifenedig. Bydd yn ofynnol o hyd i ddysgwyr gymharu yn Uned 4 a hefyd yn Uned 1 (os bydd canolfannau'n penderfynu dewis Uned 1 fel yr arholiad ysgrifenedig). Gellid ailgyflwyno gwaith Uned 4 a gofrestrwyd yn haf 2020, na ddefnyddiwyd yn rhan o gyfnewid blaenorol, i'w gymedroli yn haf 2021. Mae'r addasiad hwn yn cadw lefel y galw ac yn cynnal uniondeb yr asesiad ond yn lleihau baich yr asesu.

## Cymraeg Ail Iaith

**Uned 1: Ymateb ar lafar i ddeunydd gweledol (Asesiad Di-arholiad ond yn cael ei weinyddu fel arholiad) 25%**

Lleihau'r gofyniad i sefyll dau asesiad llafar gan roi'r opsiwn i ganolfannau gofrestru ymgeiswyr ar gyfer naill ai Uned 1 **neu** Uned 2.

**Uned 2: Cyfathrebu â phobl eraill (Asesiad Di-arholiad ond yn cael ei weinyddu fel arholiad) 25%**

Lleihau'r gofyniad i sefyll dau asesiad llafar gan roi'r opsiwn i ganolfannau gofrestru ymgeiswyr ar gyfer naill ai Uned 1 **neu** Uned 2.

**Uned 3: Adroddiadol, penodol a chyfarwyddiadol (Arholiad ysgrifenedig) 25%**

Does dim newidiadau i'r uned hon.

**Uned 4: Disgrifiadol, creadigol a dychmygus (Arholiad ysgrifenedig) 25%**

Does dim newidiadau i'r uned hon.

**Newidiadau i'r gofynion cofrestru/cyfnewid**

Mae'n ofynnol i bob ymgeisydd sefyll - yn hytrach na chael ei gofrestru yn unig - am **un** o'r **ddwy** uned lafar (Uned 1 **neu** Uned 2). Y ganolfan unigol sydd i ddewis yr uned a gallai hyn amrywio o fewn canolfan. **Byddai'r trefniant hwn yn berthnasol i rai sy'n cyfnewid yn 2021 yn unig.** Sylwer **nad** yw'n bosibl dewis sefyll Uned 1 ac Uned 2 i gyfnewid yn 2021. Rhaid i ddysgwyr sefyll dim ond un o'r ddwy uned.

**Sail resymegol**

Mae nifer yr arholiadau llafar wedi'i leihau o ddau i un er mwyn gwneud iawn am yr amser addysgu a dysgu a gollwyd. Mae'r ddwy uned yn ymdrin ag AA1 (siarad) ac AA2 (gwrando) felly mae hyn yn caniatáu i'r dysgwyr ddatblygu sgiliau a symud ymlaen i UG/Safon Uwch.

Gall y canolfannau hynny wnaeth gofrestru dysgwyr Blwyddyn 10 am Uned 1 neu Uned 2 yn 2020 gofrestru'r dysgwyr hynny i sefyll yr un uned yn 2021, heb orfod eu paratoi i sefyll yr uned sy'n weddill.
Gan ystyried yr amser addysgu a dysgu a gollwyd bydd amseriadau'r asesiadau diarholiad siarad a gwrando yn mynd i lawr fel a ganlyn:

Pâr: 4-8 munud; Grŵp o 3: 6-10 munud. Mae'r 8 munud (pâr) a'r 10 munud (grŵp o 3) yn aros i herio'r dysgwyr hynny sydd yn y bandiau uwch.

Nid yw'n bosibl addasu ymhellach heb gyfaddawdu uniondeb y cymhwyster.